RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
22/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:
22 MAWRTH 2021

# Sicrhau Newid

## Y Gronfa Iach ac Egnïol: Gwerthusiad Proses

© Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-80195-121-0

**Sicrhau Newid**

**Y Gronfa Iach ac Egnïol: Gwerthusiad Proses**

Cronfa Iach ac Egnïol
Healthy & Active Fund

Awdur(on): UK Research & Consultancy Services Ltd

Adroddiad Ymchwil Llawn RCS. (Mawrth 2021). *Sicrhau Newid. Y Gronfa Iach ac Egnïol: Gwerthusiad Proses.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 22/2021.
Ar gael yn: https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-gronfa-iach-ac-egniol-gwerthusiad-proses

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Eleri Jones

Ymchwil Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Ymchwil.IechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

Rhestr o dablau ..... ii

Rhestr o ffigurau ..... ii

Geirfa ..... iii

Rhagair ..... 1

1. Cyflwyniad a Chefndir ..... 3
2. Proses Weinyddol a Llinell amser y Gronfa Iach ac Egnïol ..... 6
3. Sbarduno Prosiectau Priodol ..... 16
4. Dylunio a Chyflawni ..... 26
5. Safbwyntiau'r Prosiectau ..... 34
6. Dull Cydweithredol ..... 43
7. Pum Ffordd o Weithio ..... 46
8. Canfyddiadau a Goblygiadau ..... 51
9. Gwerthusiad o'r Rhaglen gan Edrych Tua'r Dyfodol ..... 64
10. Goblygiadau o ran Datblygu Polisïau a Dyluniad y Rhaglen i Lywodraeth Cymru ..... 66

Llyfryddiaeth ..... 67

Atodiad 1 TÎM GWERTHUSO RHAGLEN Y GRONFA IACH AC EGNÏOL ..... 68

Atodiad 2 DULLIAU A FFYNONELLAU TYSTIOLAETH ..... 69

**Rhestr o dablau**


Tabl 3.1: Nifer yr unigolion arfaethedig a gwirioneddol…………………………………17

Tabl 3.2: Prosiectau'r Gronfa Iach ac Egnïol……………………………………………..21

Tabl 3.3: Nifer y Prosiectau a'r ardaloedd targed………………………………………..23


**Rhestr o ffigurau**


Ffigur 2.1: Trefn Llywodraethu Rhaglen y Gronfa Iach ac Egnïol…………………….. 7

Ffigur 2.2: Proses Ymgeisio a Chyflwyno 2018-2019………………………………….. 9

Ffigur 2.3: Cyflwyno a Gweithredu 2019-2021…………………………………….….14

Ffigur 2.4: Gweithredu a Gwerthuso 2021-2023.……………………….………………14

Ffigur 5.1: Lefelau boddhad yr ymgeiswyr gydag agweddau o'r cam DoDd…………35

Ffigur 5.2: Canfyddiadau Cam 2…………………………………………….............. 37

Ffigur 6.1: Lefelau Cydweithio: Hydref 2019…………………………….....................45

Ffigur 7.1: I ba raddau y mae'r unigolion yn credu y bydd y Gronfa Iach ac Egnïol yn debygol o gyfrannu tuag at Nodau Llesiant y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol……………………………………………………….…47

Ffigur 7.2: I ba raddau y mae'r unigolion yn credu bod dyluniad y Gronfa Iach ac Egnïol a'r broses ymgeisio yn sicrhau caiff pum ffordd o weithio'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol eu gweithredu……………………………48

Ffigur 8.1: Model Gwerthusiad Proses y Gronfa Iach ac Egnïol………………………57

## Geirfa

| Acronym / Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| AB/AU | Addysg Bellach/Addysg Uwch |
| CGGC | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| ChC | Chwaraeon Cymru |
| D/DDd | De/De Ddwyrain |
| DLlCD | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| DoDd | Datganiad o Ddiddordeb |
| GYY | Gwasanaeth Ymchwil ac Ymgynghoriaeth |
| HGCRh | Holiadur Gweithgaredd Corfforol Rhyngwladol |
| ICC | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| SAC | Swyddfa Archwilio Cymru |
| USC | Uwch Swyddog Cyfrifol |
| Y GIE | Y Gronfa Iach ac Egnïol |
| YSEG | Ysgoloriaeth Sgiliau Economi Gwybodaeth |

**Rhagair**

Mae'n nod gan holl Lywodraethau cadarnhaol a blaengar i sbarduno ac arwain newidiadau a gwelliannau i bolisïau sy'n effeithio ar les eu pobl a'u cymunedau. Yn aml iawn mae'r llywodraethau'n mynd ati i wneud hyn drwy raglenni cymorth grant sy'n ymwneud â phartneriaid allanol gydag nod cyffredin o ddatblygu gwasanaethau a bwrw golwg ar ddulliau a syniadau newydd. Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol (Y GIE) yn Raglen o'r fath ac mae'n bleser gennym ni gyflawni gwerthusiad Rhaglen Y GIE. Cafodd y Rhaglen ei heffeithio'n anochel gan y pandemig COVID-19 ond fe fyddai'n parhau. Mae'r argyfwng yn ategu'n gryf at bwysigrwydd neges allweddol y rhaglen ynghylch rôl gweithgaredd corfforol i hybu iechyd.

Mae bod yn iach a chadw'n heini wrth wraidd bywyd o safon a bywyd hir. Fe aiff peidio â chadw'n heini a iechyd gwael law yn llaw ac maen nhw'n ategu at ei gilydd y naill ffordd neu'r llall. Fodd bynnag, mae'n haws o lawer adnabod y broblem na'i datrys. I'r perwyl hwn, mae'r GIE yn cynnig cyllid i gyrff gwirfoddol a chyhoeddus ar gyfer Prosiectau a fydd yn ymchwilio'r ffyrdd mwyaf effeithiol i ymyrryd er mwyn gwneud newidiadau hanfodol i ymddygiad a deilliannau ac i bolisïau cyhoeddus hefyd o bosib.

Mae gwaith y Prosiectau ar lawr gwlad yn annatod i'r GIE. Ond sut mae modd i'r Llywodraeth fwrw iddi gyda dylunio a gweithredu Rhaglen er mwyn manteisio i'r eithaf ar y modd o lwyddo ar lefel Prosiect? Sut maen nhw'n gofalu bod y Rhaglen yn denu cynigion da sy'n canolbwyntio ar y grwpiau targed priodol? Sut byddan nhw'n mynd ati i asesu'r cynigion yn y ffordd orau posib? A sut maen nhw'n gofalu nad ydy mudiadau sy'n cyflwyno cynigion ond sydd ddim yn derbyn grant yn gwastraffu eu hymdrechion ynghyd â gofalu nad oes unrhyw deimlad o annhegwch yn eu mysg?

Mae'r rhain i gyd yn rhan o 'broses' Y GIE caiff eu disgrifio a'u gwerthuso yn yr Adroddiad hwn. Dyma ail brif gynnyrch gwerthusiad cyffredinol Y GIE. Y prif gynnyrch oedd ein gwerthusiad 'Theori Newid' ar Y GIE. Mae'r adroddiad hwn am broses Y GIE yn amlygu amryw gryfderon a gwersi i'w dysgu. At hyn, bu i'r adroddiad adnabod agweddau pwysig a difyr proses Y GIE sydd â goblygiadau ehangach ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn dylunio a gweithredu rhaglenni grant mewn meysydd polisi eraill.

Hoffem estyn diolch i bawb fu ynghlwm â'r broses. Bu Dr Eleri Jones a Janine Hale o gymorth mawr gyda chyflawni'r gwaith. Bu i nifer o bobl gyflawni cyfweliadau o'u gwirfodd eu hun, weithiau ar fwy nac un achlysur. Gyda diolch iddyn nhw bu modd inni gyflawni'r gwaith, ond rydym wrth gwrs yn dal cyfrifoldeb dros gynnwys yr adroddiad hwn.

Bu i dîm RCS (gwelwch Atodiad 1) gasglu tystiolaeth sylweddol i ategu at ddadansoddi'r deunydd dogfennol helaeth. Bu i Becca Mattingley gyfrannu'n sylweddol at y rhan hon o'r gwerthusiad cyffredinol ac at lunio'r adroddiad hwn. Mae hi felly'n haeddu sylw arbennig am ansawdd a maint ei chyfraniad.

**Dr Clive Grace O.B.E.**
**Cyfarwyddwr, Tîm Gwerthuso RCS** **Mawrth 2021**

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Lansiwyd y Gronfa Iach ac Egnïol (Y GIE) yn ystod haf 2018 fel cronfa £5+m i Brosiectau ledled Cymru. Mae dau dîm polisi Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am arwain Rhaglen Y GIE (Anghydraddoldebau Iechyd a Chymunedau Iach yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Changen Polisïau Chwaraeon yn yr Adran Diwylliant a Chwaraeon) ynghyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru. Llwyddodd dau Brosiect ar bymtheg i ennill cyllid yn ystod 2019-2022 a phob un ohonyn nhw'n ymwneud â gwella iechyd meddyliol a chorfforol pobl drwy gynnig ffyrdd o fyw egnïol. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar Brosiectau sydd un ai'n cefnogi'r rheiny sy'n wynebu rhwystrau sylweddol i fyw bywydau heini, a/neu well asedau cymunedol a dylanwadu ar newid ymddygiad. Dyma nodau penodol Y GIE:

- Cynyddu gweithgarwch corfforol y rheiny sy'n segur ar hyn o bryd neu sy'n cyflawni ychydig iawn o weithgarwch corfforol, a hynny mewn ffordd gynaliadwy; a
- Hybu lles meddyliol drwy gynnig cyfleoedd i gymdeithasu, gofalu ei bod hi'n haws manteisio ar ofodau a mannau ar gyfer gweithgarwch corfforol a sicrhau bod mwy o fannau o'r fath.

1.2 Cyd-destun penodol ar gyfer Y GIE ei hun a'r Prosiectau y mae'n eu hariannu ydy'r egwyddor datblygiad cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1.3 Gan hynny, bu nodau datganedig Y GIE yn ymwneud a gwella llesiant corfforol a meddyliol y poblogaethau targed penodol yn uniongyrchol. Fodd bynnag, yn ymarferol, diben Rhaglen Y GIE oedd ymchwilio syniadau a dulliau newydd gan gyflawni hynny ar y cyd ag ystod eang o bartneriaid allanol o'r sectorau gwirfoddol a chyhoeddus.

1.4 Bu i Lywodraeth Cymru gomisiynu RCS i werthuso'r GIE ar lefel Rhaglen a gwerthusiadau ar wahân ar lefel Prosiect. Nod y gwerthusiad ar lefel Prosiect ydy canfod pa mor dda allai cronfa o'r fath hon adnabod a chefnogi Prosiectau i wneud gwahaniaeth i weithgarwch corfforol a llesiant meddyliol. Bydd yn pennu a ddylid defnyddio dull ariannu tebyg eto ac adnabod gwersi o ran dyluniad a chyflwyniad y rhaglen. Mae'r gwerthusiad yn ymdrin â'r tair elfen ganlynol:

- 'Theori newid' y Rhaglen;

- proses Y GIE; a’r
- deilliannau cyffredinol.

1.5 Cafodd y gwerthusiad proses a’r gwaith theori newid eu cynnal ar y cyd ac mae ein dadansoddiad theori newid yn ein hadroddiad ‘Partneriaid Ar Waith’[1].

**Nodau’r gwerthusiad proses**

1.6 Bydd y gwerthusiad proses yn asesu dyluniad a chyflwyniad Y GIE, yn cyfrannu tuag at ddeall y deilliannau lefel-Rhaglen cychwynnol, ynghyd ag adnabod gwersi er mwyn gwella’r GIE. Fel caiff ei nodi gan Lywodraeth Cymru[2] , mae’r gwerthusiad proses yn asesu’r canlynol:

1. Effeithiolrwydd dyluniad a chyflwyniad Y GIE er mwyn iddi allu adnabod Prosiectau addas a’u cefnogi i gyflawni’r nodau cyffredinol ynghyd â’r rhwystrau a’r hwyluswyr ynghlwm;
2. Sut bu i’r GIE siapio dyluniad a chyflwyniad y Prosiectau (e.e. eu cwmpas, cydweithrediadau, gallu staff, monitro a gwerthuso, risgiau a chynaladwyedd);
3. Safbwyntiau Prosiectau ynghylch Y GIE a’r ffordd y bu iddi siapio’u gwaith;
4. Pa mor effeithiol bu dull ar y cyd Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru i ddylunio a chyflawni’r GIE, ynghyd â’r rhwystrau a’r hwyluswyr ynghlwm; a
5. Pa mor dda y cafodd y ‘pum ffordd o weithio’ eu rhoi ar waith wrth ddylunio a chyflawni’r GIE, gan gynnwys ar y lefel Prosiect.

1.7 Mae’r adroddiad gwerthusiad proses hwn yn ymdrin â’r cyfnod cychwyn y Gronfa hyd at chwarter cyntaf y cam sefydlu a chyflawni’r prosiect, h.y. hyd at hydref 2019.

**Dulliau a ffynonellau tystiolaeth**

1.8 Aethpwyd ati i gynhyrchu’r gwerthusiad proses drwy ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o amryw gamau’r GIE. Bu’n ymdrin ag effeithiau dyluniad a chyflwyniad Y GIE, safbwyntiau’r prif weithredwyr, effeithiolrwydd y cydweithio ac ydy’r GIE wedi gweithredu’r ffyrdd o weithio sydd wedi’u nodi yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

[1] UKRCS (Mawrth 2021) Partneriaid Ar Waith. Cronfa Iach ac Egnïol Llywodraeth Cymru a’i Theori Newid
[2] Llywodraeth Cymru: Manyleb ar gyfer Gwerthusiad Y Gronfa Iach ac Egnïol – Rhif Cytundeb. C333/2018/2019

1.9 Fe gynhyrchwyd y gwerthusiad proses gan fanteisio ar dystiolaeth gan pob un o'r cyrff partner lefel Rhaglen, arweinwyr yr 17 Prosiect, y Swyddogion Achos, a rhai o'r mudiadau fu'n aflwyddiannus gyda'u ceisiadau[3]. Mae mwy o wybodaeth am y dull ar Atodiad 2.

1.10 Yn benodol, bu inni gyflawni'r canlynol:

- Adolygiad o ddogfennau'r Rhaglen a Phrosiect;
- Cyfweliadau gydag aelodau Bwrdd y Prosiect a'r Grwpiau Gwerthuso a Chyflawni ;
- Cyfweliadau gydag Arweinwyr Prosiectau a Swyddogion Achos;
- Arolwg ar-lein o'r ymgeiswyr; a,
- Cyfweliadau proses ychwanegol gyda'r prif aelodau staff oedd ynghlwm â gweinyddu'r GIE.

1.11 Ym mhrif ran yr Adroddiad, mae Adran 2 yn disgrifio proses weinyddol a llinell amser y GIE. Mae Adrannau 3 i 7 yn disgrifio ac yn adolygu'r broses ynghlwm â phob un o'r pump cwestiwn y bu i Lywodraeth Cymru eu gosod, ac mae Adran 8 yn ymdrin â'r canfyddiadau ac argymhellion.

[3] Bu inni hefyd fanteisio ar ganfyddiadau gwerthusiadau proses am raglenni eraill sy'n cynnig cipolwg pellach ar ddyluniad a chyflawniad proses Y GIE, er enghraifft, 'Calls for Action ('C4A'), sef rhaglen Chwaraeon Cymru a ddatblygwyd yn 2012. Roedd C4A yn ddull newydd i Chwaraeon Cymru helpu gyda mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn ymwneud â chymryd rhan drwy herio partneriaid traddodiadol i weithio mewn ffyrdd gwahanol a drwy ddatblygu partneriaethau gyda mudiadau newydd a gwahanol i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio. Bu i aelodau tîm Y GIE gyfeirio at addysg o'r C4A wrth ddatblygu proses ymgeisio'r GIE.

## 2. Proses Weinyddol a Llinell Amser Y GIE

2.1 Fe ddatblygwyd Rhaglen Y GIE yn sgil dau ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru. Fe gychwynnnwyd ar y trafodaethau ym mis Ebrill - Mai 2018. Bu ymrwymiad ynghlwm â '*Symud Cymru Ymlaen 2016-21*' i gyflwyno Ymrwymiad Llesiant gyda'r nod o wella iechyd meddwl a chorfforol a lleihau ffyrdd o fyw segur, diffyg maeth a gormodedd o alcohol. Cafodd yr ymrwymiad hwnnw ei grybwyll unwaith eto yn '*Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol'* gan ddatgan y byddai'n cefnogi dulliau cymunedol arloesol i annog ffyrdd o fyw mwy egnïol a digonedd o faeth. Bu i Lywodraeth Cymru hefyd ymrwymo i greu "Cronfa Her, i'r Celfyddydau a mudiadau Chwaraeon yn wreiddiol, i gynnig cyllid cyfatebol ar gyfer eu Prosiectau ac i gyfuno creadigrwydd ac ecsbloetio digidol"[4].

2.2 Yn *Llythyr Cylch Gwaith Chwaraeon Cymru* ar gyfer 2018-2021, gofynnodd y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon i Chwaraeon Cymru am "ddatblygu cynigion ar gyfer Cronfa Her newydd sy'n ymdrin ag arloesedd a thechnoleg i gynyddu'r nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Gofynnodd hefyd iddyn nhw roi cynnig ar gydweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyfuno'r Gronfa gydag Ymrwymiad Llesiant i greu cronfa ar y cyd i gyd-fynd gydag amcanion Iach ac Egnïol y strategaeth Ffyniant i Bawb". Y Gronfa honno fyddai'n gofalu y caiff ymrwymiadau'r Ymrwymiad Llesiant a'r Gronfa Her eu cyflawni[5]. Cynigiwyd y byddai'r Prosiectau Cyfnod 1 yn canolbwyntio ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol gyda'r nod o hyrwyddo ffyrdd o fyw egnïol. Gellid dwyn i ystyriaeth meysydd eraill yn ystod cyfnodau yn y dyfodol[6]. Fe gyhoeddwyd Rhaglen Y GIE ar Orffennaf y 19eg 2018 ar y cyd â lansiad y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yng nghanolfan Ymwelwyr Garwnant, Merthyr Tudful.

### Trefn Llywodraethu Rhaglen Y GIE


2.3 Fe gafodd Y GIE ei dylunio a'i chyflawni gan bartneriaeth rhwng pedwar corff fel sydd wedi'i ddisgrifio uchod. 'Bwrdd Prosiect Y GIE' sy'n gyfrifol dros oruchwylio'r Rhaglen ac fe gaiff y Bwrdd ei gadeirio ar y cyd gan uwch swyddogion Llywodraeth Cymru o'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac o'r Adran Diwylliant a Chwaraeon.

---

[4] 2018.08.15 Briff Terfynol Prosiectau'r Gronfa Iach ac Egnïol
[5] Papur Cefndirol Swyddogion Achos Y GIE
[6] Nodiadau: 'Cyfarfod i drafod yr Ymrwymiad Llesiant – Mai'r 8fed 2018'

Mae 'Grŵp Gwerthuso'r GIE' a 'Grŵp Cyflawni'r GIE' yn cynnig cefnogaeth ac yn adrodd yn ôl i'r bwrdd gan gydymffurfio gyda'r trefniadau llywodraethu canlynol[7].

**Ffigur 2.1: Trefn Llywodraethu'r GIE**




2.4 Mae aelodau staff o bob mudiad partner yn cynrychioli ar bob grŵp.

2.5 Mae pob grŵp yn meddu ar gylch gorchwyl ac aelodaeth penodol, ynghyd â rolau penododedig i ofalu caiff y prif waith llywodraethu, cyflawni a gwerthuso eu pennu i'r bobl briodol.

**Proses Y GIE – y gweithgareddau a'r gweithrediadau**

2.6 Mae ein hadroddiad theori newid yn awgrymu fod Y GIE yn meddu ar nifer o theorïau newid perthnasol arfaethedig fel caiff ei grybwyll yn ein hadroddiad 'Partneriaid mewn Cynnydd'[8]. Mae honiad mai un o'r theorïau hyn oedd theori newid **proses** Y GIE. Dydy Bwrdd y Prosiect heb ddatgan hyn yn benodol ond mae'r prif weithredwyr yn cytuno'n gryf gyda'r honiad. Mae'n disgrifio mai diben dyluniad y Rhaglen a'i gamau sydd wedi'u trefnu'n ymwybodol oedd sicrhau deilliannau lefel-rhaglen gwell. Mae hyn wedi'i egluro'n mewn mwy o fanylder isod.

2.7 Cafodd llinell amser Y GIE a'r gweithgareddau i'w cyflawni eu nodi mewn Briff Prosiect Y GIE[9] a bu Cofrestr Risg, a gafodd ei ddiweddaru'n rheolaidd, yn ategu at hyn. Mae Briff y Prosiect yn sôn am y prif weithgareddau, amseroedd cychwyn a gorffen penodedig a rolau a chyfrifoldebau'r gweithredwyr ynghlwm. Dyma grynodeb o'r **prif** weithgareddau a gweithrediadau:

- Marchnata a chyfathrebu, gan gynnwys:


[7] Dogfen 'Cronfa Iach ac Egnïol_Trefniadau Llywodraethu Mehefin 2019 – fersiwn derfynol'
[8] UKRCS (Mawrth 2021) Partneriaid Ar Waith. Cronfa Iach ac Egnïol Llywodraeth Cymru a'i Theori Newid.
[9] 2018.08.15 Briff Prosiect Terfynol y Gronfa Iach ac Egnïol

- datblygu brand/logo Y GIE
  - Lansiad Gweinidogol
  - Hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, y wefan ac mewn newyddlenni;
  - Cynllunio a chyflawni 4 sioe deithiol;
- Canllaw a chefnogaeth, gan gynnwys:
  - Llunio dogfennau canllaw i ymgeiswyr;
  - Sefydlu prosesau ymgeisio ar-lein;
  - Hwyluso cyfleoedd rhwydweithio; a
  - Cynnal gweithdy Cam 2, a Gweminar.
- Dewis a dethol ceisiadau, gan gynnwys:
  - Ffurflen 'cyn Datgan Diddordeb'
  - Cam Datganiad o Ddiddordeb (DoDd); a
  - Gwahodd ymgeiswyr dewisol i Gam 2 i gyflwyno cais llawn.
- Proses Asesu, gan gynnwys:
  - Dewis aelodau panel ar gyfer y cam DoDd a datblygu cyfarwyddyd mewnol;
  - Hysbysiad o benderfyniadau yn dilyn y cam DoDd;
  - Dewis aelodau panel ar gyfer Cam 2 a meini prawf ar gyfer asesu;
  - Hysbysiad o benderfyniadau yn dilyn Cam 2; a,
  - Cwblhau prosesau ymroddiad dyladwy a chytundebau grantiau.
- Monitro a gwerthuso, gan gynnwys:
  - Llunio pecyn offer gwerthuso Prosiect Y GIE;
  - Cyflwyno templed data safonol;
  - Penodi Swyddogion Achos a llunio Llawlyfr;
  - Llunio templed Adroddiad Uchafbwyntiau;
  - Creu Porth Cysylltu Gwrthrychol; a,
  - Comisiynu gwerthusiad allanol.

2.8 Fe luniwyd y gweithgareddau a chamau hyn er mwyn ategu at y nod o ariannu cyfres o Brosiectau a allai gyflawni deilliannau arfaethedig Y GIE. Chwaraeon Cymru oedd y partner mwyaf 'amlwg' o ran gweinyddu'r camau ymgeisio am grantiau a chyflwyno grantiau. Fodd bynnag roedd yr holl bartneriaid ynghlwm â'r broses dylunio a gwneud penderfyniadau i gyflawni'r deilliant hwn. Fe gafodd rolau a thasgau eu dynodi yn unol â hynny ar sail sgiliau a galluoedd y mudiadau a'r unigolion. Cafodd

penderfyniadau ynghylch amryw agweddau eu gwneud ar y cyd drwy gydol y broses drwy ofalu bod cynrychiolwyr o bob mudiad partner yn cyfrannu tuag at bob cam. Mae'r diagram union isod, yn ogystal â'r rheiny yn nes ymlaen yn yr adroddiad, yn portreadu camau a llinell amser y broses[10].

**Ffigur 2.2: Proses Ymgeisio a Chyflwyno 2018-2019**




2.9 Fel y gwelwch drwy fwrw golwg ar ran cyntaf y llinell amser, yn dilyn y lansiad ym mis Gorffennaf 2018, roedd Galwad am Geisiadau (Hydref 2018) ar gyfer cam 'Datganiad o Ddiddordeb' (Dod). Yna fe gafodd y ceisiadau eu dewis a'u dethol nes cafodd 43 Prosiect eu gwahodd i gyflwyno cais llawn ac achos busnes ar gyfer y grant. Aeth y bwrdd ati i asesu a gwneud penderfyniadau yn ystod Mawrth ac Ebrill 2019.

### Marchnata a chyfathrebu

2.10 Bu hyn ar waith yn ystod Gorffennaf 2018, pan lansiwyd y Rhaglen ar y cyd â lansiad y *Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon* newydd. Fe luniwyd gwaith marchnata a chyfathrebu'r GIE yn fwriadol i gefnogi cydweithio - nid yn unig o ran syniadau yn ymwneud ag iechyd a chwaraeon, ond hefyd yn ymwneud â'r partneriaethau ar lefel

[10] Bu i Reolwr Prosiect Chwaraeon Cymru lunio'r diagramau'n garedig yn dilyn cydweithio gyda ni i ddeall proses cyffredinol Y GIE a'r llinell amser. Cafodd y diagramau hefyd eu dilysu'n annibynnol drwy driongli'r wybodaeth gydag ein casgliad o dystiolaeth.

Prosiect cafodd eu hannog rhwng mudiadau. Cafodd Y GIE ei hyrwyddo'n eang ymysg yr amryw fathau o fudiadau a gafodd eu hystyried yn ddigonol i allu cyflawni ei ddeilliannau. Er mwyn dangos natur partneriaeth gyfartal Y GIE, fe gomisiynwyd logo a oedd yn portreadu dull cysylltiedig yn hytrach na defnyddio logo'r tri mudiad ar yr holl ddeunydd. Fe luniwyd cynllun cyfathrebu penodol, gan adnabod ystod o sianelau i'w defnyddio er mwyn gofalu bod ymgeiswyr arfaethedig yn ymwybodol o'r cynnig grant. Ymysg y sianelau hynny oedd cyfres o sioeau teithiol a gweminar gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Defnyddiwyd Eventbrite i gyflwyno gwybodaeth ynghylch diben y sioeau teithiol a chofrestr presenoldeb. Bu inni hefyd ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol - Twitter a Facebook yn bennaf - gyda hysbysiadau gan Lywodraeth Cymru a chyfrifon y mudiadau partner. At hyn, cafodd Y GIE ei hyrwyddo mewn newyddlenni trydydd parti presennol ac mewn e-byst at ymgeiswyr arfaethedig oedd ar restrau cysylltiadau trydydd parti[11].

2.11 Cafodd cyfres o gyfleoedd eu hadnabod i ddenu sylw'r cyfryngau cenedlaethol, gan gynnwys ymrwymiad Gweinidogol uwch yn y lansiad. Bu inni ystyried y safle (Canolfan Ymwelwyr Garwnant) yn ofalus o ran sut y gallai gydymffurfio gyda nodau'r GIE: *"…byddai'n hybu cydweithio gan ei fod yn safle Cyfoeth Naturiol Cymru, buasai staff Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynychu, roedd yn awdurdod lleol Merthyr Tudful felly y tu hwnt i Gaerdydd, ac mewn rhanbarth a fyddai'n debygol o elwa o'r gronfa"*[12]. Fe benderfynwyd cyfuno'r digwyddiad gyda lansiad Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yn rhannol oherwydd fe fyddai'n help i ddenu pobl i'r digwyddiad lansio. Dewiswyd y lleoliad er mwyn amlygu'r bartneriaeth rhwng Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu'r lefelau o weithgarwch corfforol. Bu'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yn enghraifft o'r bartneriaeth gan y bu i Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru gymeradwyo'r Weledigaeth. Dewiswyd y safle hefyd er mwyn amlygu pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol i'r agenda gweithgarwch corfforol a'r neges y dylid ystyried 'cyfleusterau' y tu mewn a thu allan i gynnig cyfleoedd i bobl h.y. manteisio ar ein holl asedau cymunedol. Fe benderfyniwyd cynnal y sgyrsiau yn yr awyr agored (a oedd yn galw am waith wrthgefn ychwanegol rhag ofn y byddai'r tywydd yn anffafriol), i drafod syniadau am gadw'n heini a'r buddion ynghlwm.

[11] Drafft o Gynllun Cyfathrebu'r Gronfa Iach ac Egnïol

[12] Unigolyn lefel Rhaglen y bu inni ei gyfweld

2.12 Cafodd deilliannau lefel uchel Y GIE – sef cynyddu gweithgarwch corfforol a gwella lles meddyliol – eu pwysleisio yn yr holl ddogfennau hyrwyddo mewnol ac allanol. Bu inni ofalu bod geiriad y nodau cyffredinol yn parhau i fod yn gyson, fel sydd wedi'i grybwyll yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

**Cyfarwyddyd a chefnogaeth**

2.13 Roedd Bwrdd y Prosiect yn awyddus i gynnig cyfarwyddyd a chefnogaeth drwy gydol y broses ymgeisio gyda'r nod o annog cydweithio a rhannu'r neges yn eang. Dewiswyd lleoliadau'r sioeau teithiol er mwyn gofalu bod pobl o wahanol ardaloedd ledled Cymru yn eu mynychu. Soniodd y cyfweledigion mai diben y sioeau teithiol oedd cynnig 'blas' o'r dull yn hytrach na chanllaw / meini prawf cyflawn a manwl. Yn ystod y cyfnod hwn, roedden ni'n dal wrthi'n datblygu'r meini prawf ar gyfer asesu a'r prosesau dewis manwl. Bu inni fanteisio ar y sioeau teithiol i gasglu safbwyntiau a llunio'r canllaw. Bu i'r sioeau teithiol ymdrin â ffyrdd o weithio a gweithdai penodol am **cydweithio, arloesedd a chynaladwyedd.**

2.14 Yn dilyn y sioeau teithiol, lansiwyd grŵp Yammer ar gyfer y mynychwyr ac fe gafodd ei hyrwyddo ar y tudalennau Cyllid a Chefnogaeth ar wefan Chwaraeon Cymru. Dyma eglurhad o gyfarwyddyd y grŵp newydd:

*"Mae'r wybodaeth gafodd ei rhannu yn ein sioeau teithiol ar gael ar Yammer erbyn hyn. Mae'r safle hefyd yn gyfle ichi gysylltu gyda phobl a mudiadau eraill i rannu barnau, syniadau ac ymchwilio cyfleoedd cydweithio arfaethedig"[13].*

2.15 Roedd y Ddeddf Diogelu Data 2018[14] mewn grym erbyn hynny felly roedd yn anoddach rhannu manylion cyswllt y rheiny wnaeth fynychu'r sioeau teithiol. Roedd y grŵp Yammer yn ffordd o oresgyn hyn i raddau. Dim ond cwpl o bobl oedd yn rhan o Grŵp Cyflawni proses Y GIE mewn gwirionedd ac nid Rhaglen Y GIE oedd eu hunig faes gwaith - hyd yn oed y gweithiwr oedd ar secondiad yn Chwaraeon Cymru o Lywodraeth Cymru a wnaeth arwain y gwaith gweinyddol, fu'n gyfrifol dros gyfeiriad e-bost Y GIE ac a oedd yn bwynt cyswllt cychwynnol. Roedd galw sylweddol am gefnogaeth a chyswllt - fel enghraifft, yn y cam cyn DoDd i'r cam DoDd (rhwng y digwyddiadau sioeau teithiol yn cychwyn ar Fedi'r 28ain hyd at Hydref y 15fed pan agorwyd y cam DoDd), bu inni gofnodi 74 o ymholiadau dros e-bost a dros 20 o sgyrsiau dros y ffôn.

[13] Wedi'i gyflwyno'n wreiddiol ar adran Cyllid a Chefnogaeth gwefan Chwaraeon Cymru *(ddim ar gael bellach)*

[14] Deddf Diogelu Data 2018

2.16 Bu i Adran Grantiau Chwaraeon Cymru sefydlu proses ymgeisio'r GIE ar eu system grantiau ar-lein[15]. Bu inni gynnig cyfarwyddyd a chefnogaeth bellach I 43 ymgeisydd terfynol Cam 2. Cawson nhw eu gwahodd i weithdy yng nghanolbarth Cymru ar Ionawr yr 22[ain] 2019 i dderbyn cyflwyniadau ar y templed Model Busnes 5 Achos i'w ddefnyddio yn y cais terfynol ynghyd â chyflwyniadau ar y trefniadau monitro a gwerthuso arfaethedig.

**Y broses dewis a dethol**

2.17 Bu'r tîm yn disgwyl diddordeb helaeth yn Y GIE o'r cychwyn cyntaf. O ganlyniad fe gyflwynwyd proses dewis a dethol, gan ddefnyddio 'ffurflen cyn DoDd' i gasglu gwybodaeth sylfaenol am yr ymgeiswyr, gwirio'u cymhwysedd yn gryno ynghyd â gwirio dealltwriaeth yr ymgeiswyr ynghylch y cyfanswm cyllid bu iddyn nhw geisio amdano a diben y grant. Unwaith y bu inni dderbyn cais cyn DoDd, bu inni ymateb gyda hyperddolen i'r cais DoDd, yn ogystal ag unrhyw eglurhad angenrheidiol ynghylch cymhwysedd / meini prawf ar gyfer y grantiau. Nod y broses dewis a dethol oedd lleihau'r nifer o geisiadau anghymwys ac osgoi gwastraffu amser diangen yn asesu. Fe dderbyniwyd 152 cais cyn DoDd a 122 o ffurflenni cyn DoDd wedi'u cwblhau. Erbyn diwedd y cam DoDd ffurfiol, cyflwynwyd 109 o ffurflenni. Yna bu inni gychwyn ar y broses asesu ffurfiol fel caiff ei grybwyll isod.

**Y broses asesu**

2.18 Bu dau gam ar wahân ynghlwm â'r broses asesu hefyd, y cyntaf ym mis Rhagfyr 2018 ar gyfer y cam DoDd a'r ail ym mis Mawrth 2019 ar gyfer ceisiadau llawn. Bu aseswyr gwahanol ar gyfer y ddau wahanol gam. Roedd proses asesu'r cam DoDd yn symlach lle'r oedd angen sgorio yn erbyn ffactorau meini prawf a chymhwysedd wedi'u paratoi ymlaen llaw. Yn ystod Cam 2, roedd angen cynllunio mwy llym a datblygu mwy manwl a bu'n rhaid i'r aseswyr dreulio mwy o amser yn asesu. Roedd Cam 2 yn galw am sgiliau gwahanol a phrofiad o asesu achosion busnes. Bu cynrychiolwyr o'r tri mudiad ynghlwm â'r camau. Bu i'r Grŵp Cyflawni lunio canllaw ar gyfer aseswyr, templedi a deunyddiau ategol eraill. Yr aelod ar secondiad fu'nh arwain y gwaith ond bu i'r holl bartneriaid gyfrannu tuag ato hefyd. Bu dau aelod o staff o Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghyd â chwe aelod o staff o Lywodraeth Cymru yn gyfrifol am asesu'r achosion busnes. Aelodau o Chwaraeon

[15] Y system gaiff ei ddefnyddio ar hyn o bryd ydy CC Grant Tracker. Y tro cyntaf bu i Chwaraeon Cymru ddefnyddio proses ar-lein **dau** gam oedd yn ystod Rhaglen Y GIE – prosesau un cam neu gam DoDd all-lein oedd ynghlwm â rhaglenni eraill

Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd yn gyfrifol am asesu'r adrannau'r achosion strategol ac ariannol mewn parau. Staff Llywodraeth Cymru, unwaith eto mewn parau, oedd yn gyfrifol am asesu'r achos economaidd, achos masnachol ac achosion rheoli.

**Monitro a gwerthuso**


2.19 Yn y gweithdy Cam 2 yn ystod Ionawr yr 22ain 2019 bu i'r ymgeiswyr ddysgu am y trefniadau monitro a gwerthuso arfaethedig, yn ogystal â sut i lunio modelau rhesymeg ar gyfer eu Prosiectau er mwyn ategu at y gwerthusiadau lefel-Prosiect unigol. Bu iddyn nhw ddysgu hefyd sut i osod y data sylfaenol a bodloni'r gofynion o ran monitro presenoldeb. Roedd gofyn i Brosiectau ddefnyddio'r Holiadur Gweithgaredd Corfforol Rhyngwladol (HGCRh) neu'r Holiadur Gweithgarwch Corfforol i Blant (HGCB) i fesur lefelau gweithgarwch corfforol eu buddiolwyr a/neu'r Raddfa Llesiant Plant Stirling (8-13 oed) a Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin (13+) i fesur llesiant meddwl. Yna fe gafodd Pecyn Offer Monitro a Gwerthuso ei ddosbarthu dros e-bost ar Ionawr y 24ain 2019, gyda manylion pellach ar y dull a rhestr o ffynonellau cymorth a chyngor ychwanegol[16].

2.20 Unwaith i Fwrdd y Prosiect benderfynu ar yr 17 Prosiect terfynol ym mis Mawrth 2019, fe drefnwyd i'r Gweinidog lofnodi a chymeradwyo'r penderfyniadau. Cafodd ymgeiswyr y prosiectau eu hysbysu o'r penderfyniad ym mis Mehefin. Dyma'r llinell amser arfaethedig o'r cam hwn hyd at 2023 isod.


---

[16] Pecyn Offer Gwerthuso Prosiect y Gronfa Iach ac Egnïol Ionawr 2019. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at yr adnoddau mesut canlynol yn ymwneud â gweithgarwch corfforol a llesiant meddyliol:
HGCRh: International Physical Activity Questionnaire (IPAQ)
HGCB: The Physical Activity Questionnaire for Children (PAQ-C)
Warwick-Edinburgh Mental Well-being Scale (WEMWBS) (oedran 13+):
Stirling Children's Wellbeing Scale (8-13 oed)

**Ffigur 2.3: Cyflwyno a Gweithredu 2019-2021**




**Ffigur 2.4: Gweithredu a Gwerthuso 2021-2023**




2.21 Ers y cam penderfynu terfynol, bu i dîm canolog Y GIE gynnig cefnogaeth bellach. Bu i'r Grŵp Cyflawni gynnig neilltuo Swyddog Achos ar gyfer pob Prosiect, gan ddilyn

dull wedi'i fabwysiadu eisoes gan Chwaraeon Cymru ar gyfer y rhaglen Calls4Action. Bu i gyfweledigion ddisgrifio rôl y Swyddog Achos fel un 'tringar'. Fel cafodd ei grybwyll yn y llythyr cynnig grant: *"Caiff Swyddog Achos ei neilltuo ar gyfer pob prosiect a'r Swyddog hwnnw fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer holl ymholiadau gan arweinydd y prosiect ac ar gyfer cyfathrebu rhwng partneriaeth Y GIE a'r prosiect. Bydd y Swyddog Achos yn gyfrifol am dderbyn y data monitro a'r wybodaeth ofynnol ynghlwm ag amodau a thelerau'r Cynnig hwn. Bydd y Swyddog yn cysylltu gydag arweinydd y prosiect yn ystod y cyfnod gweithredu i gytuno ar amserlen ar gyfer cyflwyno'r holl wybodaeth a thempled unigryw ar gyfer data'r prosiect"*[17] . Cafodd hyfforddiant a chefnogaeth ei drefnu ar gyfer Swyddogion Achos i'w ymgyfarwyddo gyda'r GIE a'r Pecyn Offer Monitro a Gwerthuso ynghyd a'r gofynion oedd wedi'u cyflwyno i'r Prosiectau. Mae disgrifiad o rôl Swyddog Achos[18] yn nogfennau Cylch Gorchwyl a Llywodraethu'r Rhaglen. Bu i Grŵp Cyflawni'r GIE gyflwyno Llawlyfr i'r Swyddogion Achos gyda gwybodaeth benodol am y prosiect a chanllawiau cyffredinol.

2.22 Yn ystod cychwyn mis Rhagfyr 2018, bu i Fwrdd y Prosiect gytuno hefyd i gomisiynu'r gwerthusiad annibynnol lefel Rhaglen hwn.

[17] Dogfen 'Y Gronfa Iach ac Egnïol – Llythyr Cynnig Grant – TEMPLED TERFYNOL'
[18] Dogfen 'Y Gronfa Iach ac Egnïol _Trefniadau Llywodraethu Mehefin 2019 – y fersiwn derfynol'

## 3. Sbarduno Prosiectau Addas

3.1 Pan fo Llywodraethau'n mynd ati i sefydlu Rhaglenni cymorth grant fel Y GIE mae'n rhaid iddyn nhw fynd i'r afael â heriau, a allai fod yn drafferthus, yn ymwneud â gweinyddu a pherthnasau. Ar un llaw, mae'n hanfodol bod yna nifer ddigonol o geisiadau o safon briodol i gyfiawnhau gwario'r cyllid wedi'i neilltuo i gyflawni nodau arfaethedig y Rhaglen. Caiff peidio â gwneud hynny, ei ystyried yn fethiant bron bob amser, hyd yn oed os oedd hynny'n golygu arbed ychydig o arian cyhoeddus. Fodd bynnag, os oes gormod o geisiadau fel nad oes digon o gyllid wedi'i neilltuo eu hariannu, mae'n bosib y byddai ymgeiswyr na fyddai'n llwyddiannus wedi gwastraffu llawer o ymdrech ac amser ac fe allai hyn olygu risg cyfochrog i ewyllys da a pherthnasau parhaus. Mae gofalu bod cydbwysedd priodol yn her dylunio sylfaenol i Raglenni cymorth grant fel Y GIE.

3.2 Bu i'r rheiny oedd yn gyfrifol am weithredu'r GIE ddeall y goblygiadau hyn i'r dim. Mewn rhai agweddau, bu iddyn nhw weithredu mewn ffordd a allai fod wedi gwaethygu'r sefyllfa gan osod safonau uchel dros ben wrth farnu ceisiadau er mwyn sicrhau cynigion a fyddai'n gallu cyflawni deilliannau uchelgeisiol y Rhaglen. Bu i ddogfen Galw am Geisiadau a Chyfarwyddyd Y GIE ddatgan:

*"Rydym yn croesawu ceisiadau a fyddai, drwy gydweithio a gweithredu, yn cefnogi'r bobl hynny sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf sylweddol rhag byw bywydau heini, ac yn enwedig:*

- *Plant a phobl ifanc hyd at 24 oed*
- *Pobl gydag anabledd neu salwch hirdymor*
- *Pobl sy'n wynebu tlodi neu sy'n ddifreintiedig.*
- *Pobl hŷn a'r rheiny sydd o gwmpas oed ymddeol.*

*Rydym yn awyddus i dderbyn ceisiadau am Brosiectau yn Ardal Tasglu'r Cymoedd yn enwedig, ac sy'n cryfhau adnoddau cymunedol (fel grwpiau neu glybiau cymunedol/chwaraeon, ysgolion neu weithleoedd neu sy'n ymchwilio a mynd i'r afael gyda thechnoleg ddigidol) i ddylanwadu ar newid ymddygiadau,"*

3.3 Gwyddai dylunwyr y Rhaglen bod hwn yn ofyniad mawr. Roedden nhw'n gobeithio ariannu Prosiectau oedd â'r gallu i fynd i'r afael â phroblemau sylweddol ymysg grwpiau targed allweddol oedd yn wynebu heriau a rhwystrau rhag cymryd rhan.

Roedd gofyn i geisiadau llwyddiannus ddiwallu safonau uchel ynghyd â bodloni proses ymgeisio y bu i rai honni oedd yn un dyrys. Fodd bynnag, roedd arweinwyr y Rhaglen o'r farn bod y broses yn un oedd yn gymesur â graddfa'r grantiau oedd ar gael. Felly bu iddyn nhw lunio proses gyda'r nodau canlynol:

- Cynnig y gronfa newydd i ystod eang o ymgeiswyr arfaethedig;
- Cynnig arweiniad i ymgeiswyr arfaethedig i'w helpu i gyflwyno ceisiadau a fyddai'n bodloni amcanion a dull dewisol y gronfa yn y ffordd orau;
- Dewis a dethol ceisiadau yn ystod cam rhagarweiniol cyn 'Datgan Diddordeb';
- Cyfyngu ceisiadau llawn i'r rheiny roedden nhw o'r farn a oedd yn gallu bodloni meini prawf y gronfa a'i phroses ymgeisio dyrys; a
- Cynnal proses asesu a dewis llym i ddewis y ceisiadau llwyddiannus.

3.4 Gan hynny, aeth tîm Y GIE ati i ddylunio'r cynllun pwrpasol o brosesau cyfathrebu a chefnogi wedi'i grybwyll yn Adran 2, gyda'r nod o gysylltu gyda mudiadau fyddai'n gallu cyfrannu tuag at nodau'r GIE. Roedd y prosesau marchnata a hyrwyddo, y camau dewis a dethol a'r prosesau meini prawf ac asesu i gyd yn meddu ar elfennau a fyddai'n help i adnabod prosiectau addas a chynnig cefnogaeth yn ystod camau cynnar y gwaith cynllunio.

3.5 Mae Tabl 3.1 yn dangos y cydweithio drwy gydol y broses, o'r gwaith hyrwyddo hyd at gyflwyno'r grantiau.

**Tabl 3.1: Nifer o ymgeiswyr arfaethedig a gwirioneddol**

| Cam | Nifer y mynychwyr / ymgeiswyr / Prosiectau |
|---|---|
| Medi 2018: Sioeau Teithiol | 260 o fynychwyr (heb gynnwys y rheiny wnaeth gymryd rhan yn y gweminarau) |
| Hydref 2018: Cyn DoDd | 152 o ymholiadau wedi'u derbyn |
| Hydref 2018: DoDd | 109 o Ddatganiadau o Ddiddordeb wedi'u cyflwyno<br>Cyfanswm gwerth y ceisiadau – £20m+ |
| Ionawr 2019: Cam 2 Cais Llawn | 43 o Brosiectau wedi'u gwahodd i gyflwyno cais llawn<br>Cyfanswm gwerth y ceisiadau - £12m |
| Mehefin 2019: Penderfyniad | 17 o Brosiectau wedi derbyn cyllid<br>£5.4m, gyda chyfanswm gwerth y prosiectau'n £7.7m |

3.6 Yn sgil y broses bu cydweithio sylweddol gyda Phrosiectau arfaethedig. Dywedodd aelod o'r Grŵp Cyflawni bod cymaint o ddiddordeb yn y gronfa o'r cychwyn cyntaf, fel roedd yn rhaid cyfyngu'r nifer o bobl oedd yn gallu cofrestru ar gyfer y sioeau teithiol ar Eventbrite. Cafodd y cyfweliadau yn ystod y diwrnod eu huwch lwytho ar Yammer, felly roedd cyfle i'r rheiny nad oedd wedi mynychu i fwrw golwg ar y cynnwys a chysylltu gydag eraill i raddau helaeth.

3.7 Roedd yna hefyd broses cyn-DoDd. Bu i'r prif weithredwr ynghlwm ei ystyried yn gam gwahanol ac a allai fod o gymorth i ymgeiswyr arfaethedig[19]. Roedd cyfle i'r ymgeiswyr arfaethedig gyfathrebu'n gymharol anffurfiol gydag un o dîm Y GIE i ofalu eu bod yn deall y gofynion allweddol - er enghraifft, mai dim ond Prosiectau sy'n seiliedig ar refeniw gaiff eu hariannu yn hytrach na cheisiadau cyfalaf. Ni chafodd hyn ei gyfuno gyda'r system ar-lein a bu i dîm Y GIE ei ddylunio i osgoi llwyth gwaith diangen i ymgeiswyr a'r tîm gan helpu i ddewis a dethol Prosiectau anghymwys yn ystod y camau cynnar. Bu lleihad yn y nifer o ymgeiswyr rhwng y cam cyn DoDd a'r cam DoDd ond roedd yn amhosib i'r staff bennu a oedd hyn o ganlyniad i'r wybodaeth y bu iddyn nhw ei derbyn neu a oedd yr ymgeiswyr arfaethedig wedi newid eu meddwl. Bu i'r tîm Grantiau awgrymu y gallai prosesau ymgeisio yn y dyfodol elwa o ddefnyddio ffurflenni ar-lein yn ystod y cam DoDd a allai hysbysu ymgeiswyr o gynigion anghymwys a gweithredu fel hidlwr tebyg ond 'rhithiol'.

3.8 Cafodd proses y cam Cais Llawn ei llywio gan ganfyddiadau'r cam DoDd a bu i arweinwyr y Rhaglen ystyried sut i wella'r ffurflen ar-lein a rheoli'r cynnwys y gallai a ni allai'r ymgeiswyr ei gyflwyno. Roedd tîm Y GIE hefyd yn ymwybodol o'r diddordeb sylweddol gan ymgeiswyr arfaethedig. Cyn Cam 2 bu i'r tîm hysbysu'r ymgeiswyr y byddai'r broses yn hynod gystadleuol. Fel caiff ei grybwyll yn Nhabl 1, bu i'r cyfanswm cyllid y bu i ymgeiswyr geisio amdano yn llawer uwch na'r cyllid oedd ar gael. Yn dilyn hynny bu proses hidlo a dim ond ychydig o dan 40 y cant o ymgeiswyr y cam DoDd oedd yn llwyddiannus ar gyfer Cam 2. Gan ddwyn i ystyriaeth llymder gofynion yr Achos Busnes, roedd Grŵp Cyflawni'r GIE yn disgwyl y byddai dim ond oddeutu hanner o'r ymgeiswyr wnaeth dderbyn gwahoddiad i gyflwyno cais llawn yn gwneud hynny. Fodd bynnag, erbyn y dyddiad cau, roedd yn "syndod" gan y tîm bod 42 o'r 43 ymgeisydd gwreiddiol ar y rhestr fer wedi cyflwyno achos busnes[20] - roedd yn sefyllfa annisgwyl er gwaethaf y rhybudd y byddai'n broses gystadleuol. Roedd yn

[19] Rydym wedi ein cyfeirio at broses debyg yn ymwneud â chyllid yr UE, ond am symiau uwch o lawer.

[20] Roedd yr ymgeisydd oedd yn weddill yn bartner ar ran un o'r 42 o brosiectau.

amlwg bod angen mwy o amser i gyflawni'r broses nac y bu i'r aseswyr ei neilltuo. Roedd hefyd yn golygu mai dim ond llai na hanner yr ymgeiswyr hyn oedd â gobaith realistig o dderbyn cyllid. Yn ystod y camau DoDd a Cheisiadau Llawn, cafodd y mwyafrif o geisiadau eu cyflwyno ar y dyddiad cau. Felly roedd hyn yn golygu llwyth gwaith sylweddol i Reolwr Prosiect Chwaraeon Cymru a'r Tîm Grantiau fu'n gyfrifol am gydnabod a chofnodi'r ceisiadau.

3.9 Roedd y meini prawf asesu ar gyfer ymgeiswyr Y GIE yn eglur ac yn fanwl, a bu'r broses asesu yn drylwyr. Unwaith eto, roedd holl bartneriaid Y GIE ynghlwm â dylunio'r broses hon a'r gweithiwr ar secondiad a'r Grŵp Cyflawni oedd yn gyfrifol am ei arwain. Roedd tyb y buasai'r broses asesu a'r mewnbwn gan aelodau'r Panel Asesu yn allweddol er mwyn sefydlu Rhaglen llwyddiannus. Cafodd aelodau panel (aseswyr) eu recriwtio o'r tri mudiad partner ac fe gawson nhw eu dewis ar y sail eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol ar gyfer y cam asesu DoDd a'r cam ceisiadau llawn. Bu i'r Grŵp Cyflawni gynnig cefnogaeth pendant a gwerth chweil i'r aelodau panel. Cafodd templedi ar gyfer sgorio ac asesu o gymharu â'r meini prawf eu darparu ac fe drefnwyd cyfarfodydd i aseswyr drafod ac adolygu sgoriau a sylwadau. Cafodd aelodau panel newydd eu recriwtio ar gyfer Cam 2 yn dilyn y cam DoDd. Cafodd y 109 DoDd eu rhannu rhwng chwe aseswr ac fe ddewiswyd yr unigolion hynny i gynnig gwahanol safbwyntiau ynghylch meysydd fel arloesedd iechyd, gwella iechyd, addysg, y sector awyr agored a chwaraeon. Roedd criw rhannol wahanol o aseswyr yn gyfrifol am fwrw golwg ar yr Achosion Busnes llawn, a oedd wrth wraidd proses ymgeisio Cam 2. Y rheswm dros hyn oedd bod angen aseswyr a oedd yn meddu ar arbenigedd mewn meysydd penodol. Cafodd adrannau strategol ac achosion ariannol yr Achosion Busnes eu hasesu gan Chwaraeon Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru tra'r oedd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am asesu'r achos economaidd, achos masnachol a'r achosion rheoli.

3.10 Dywedodd yr aelodau panel hynny y bu inni eu cyfweld eu bod wedi derbyn cefnogaeth ddigonol ac roedden nhw o'r farn bod y broses yn ddigon hyblyg i'w addasu wrth i awgrymiadau a phwyntiau dysgu ymddangos. Er enghraifft, roedd aelodau panel yn bwyllog wrth wneud penderfyniadau ar sgorau oedd wedi'u dyfarnu'n annibynnol ar y sail eu bod nhw ond wedi bwrw golwg ar sampl o'r ceisiadau. Diben hyn oedd osgoi blinder asesu a lleihau'r llwyth gwaith. Fodd bynnag, bu i aelodau leisio'u pryder am hyn mewn cyfarfod panel felly fe gafodd pob cais eu sgorio gan ddau aseswr a oedd yna'n trafod ac yn adolygu anghysondebau

mewn parau. Roedd hyn yn golygu bod angen amser ychwanegol a bu i'r Bwrdd Prosiect gymeradwyo hyn. Bu i'r dull hwn helpu i liniaru unrhyw heriau posib yn nes ymlaen yn ymwneud â sgorio, fodd bynnag bu iddo achosi baich ychwanegol ar adnoddau tîm Y GIE. Roedd yn ddibynnol ar ewyllys da a chydwybodolrwydd y staff ynghlwm ynghyd â'u pharodrwydd i gyflawni gwaith y tu hwnt i oriau gwaith arferol. Roedd hefyd yn enghraifft o sut bu i arweinwyr y rhaglen ystyried awgrymiadau yn ystod y broses a gwneud newidiadau a oedd yn arwain at welliannau cyffredinol o ran safon yr asesiad.

3.11 Roedd tîm Y GIE a'r aseswyr yn ymwybodol y gallai'r broses ddenu craffu sylweddol, er enghraifft gan ymgeiswyr aflwyddiannus. Roedd hefyd teimlad o gyfrifoldeb bod y gronfa newydd hon "y tu hwnt i'r parth cysur", yn enwedig o ystyried parodrwydd tîm Y GIE i ddewis Prosiectau a oedd yn golygu mentro a rhoi cynnig ar ddulliau newydd. Disgrifiodd aelod o dîm Y GIE: *"Yn ystod y broses asesu, cafodd aelodau eu hatgoffa'n gyson bod y gronfa yn ceisio dod o hyd i wahanol ddulliau ac i ystyried effeithiolrwydd y dulliau, ac o bosib nid y dulliau profedig yn unig. Cyhyd â bod modd i'r cais ymdrin â'r rhesymeg yn eglur… roedd modd i'r aelodau ystyried ceisiadau a 'allai' lwyddo ac nid ond y rheiny 'fyddai'n' llwyddo yn unig. Roedd yn rhaid inni barhau i atgoffa aelodau'r panel o hynny".*

3.12 Roedd Tîm Grantiau Chwaraeon Cymru hefyd yn ymwybodol y gallan nhw ddangos rhagfarn anfwriadol tuag at Brosiectau a oedd yn canolbwyntio'n fwy ar 'chwaraeon'. Bu inni gydnabod y byddai cynrychiolwyr Chwaraeon Cymru ar y panel asesu'n gyfarwydd gyda rhai o'r ymgeiswyr a'r Prosiectau y byddan nhw'n asesu ar gyfer eu hariannu. Felly, bu iddyn nhw fabwysiadu'r weithdrefn o asesu ceisiadau gan ddwyn i ystyriaeth cynnwys y cais yn unig.

3.13 Bu trafodaethau penodol ynghylch y peryg o ragdybio wrth ddarllen ceisiadau gan bartneriaid blaenorol. Cafodd ei gydnabod hefyd mae'n bosib y byddai angen sgiliau asesu gwahanol lle bo'r deilliannau arfaethedig "y tu hwnt i chwaraeon yn unig". Dywedodd rhai o'r cyfweledigion o'r Tîm Grantiau eu bod yn teimlo y mae'n bosib y byddai defnyddio aseswyr gydag arbenigedd amrywiol o wahanol fudiadau partner wedi effeithio ar ba Brosiectau cafodd eu dewis. Mae hyn o bosib yn ddull effeithiol ar gyfer proses asesu - mae'n bosib bod dwyn gwahanol safbwyntiau ynghyd yn golygu gwahanol ddeilliannau, a hynny'n berffaith iawn, gan fod aseswyr yn ymateb yn wahanol i'r cynigion. Bu i arweinwyr y Rhaglen gynnal prawf dibynadwyedd cyflym ar sampl ar hap o 42 o geisiadau achos busnes a bu canlyniadau'r ymarfer hwnnw'n

ffafriol. Gallai prosesau meini prawf ac asesu trylwyr, gan gynnwys cymedroli rhwng aseswyr, helpu i leddfu a datrys gwahaniaethau o’r fath a chynhyrchu safbwynt mwy ar y cyd.

**Ystod y ceisiadau**

3.14 Cafodd 17 Prosiect eu dewis o’r 42 cais llawn y bu inni eu derbyn. Bu i gyfweledigion o dîm Y GIE gymeradwyo’r Prosiectau llwyddiannus a’u heffaith arfaethedig. Dywedodd un o’r cyfweledigion: *“Fe fydd buddion sylweddol i nifer ohonyn nhw (buddiolwyr). Mae’n debyg y bydd buddion eang - gallai helpu gydag unigrwydd cymdeithasol, cydlyniant, gweithgareddau newydd, agweddau addysg a hybu hyder. Mae’r buddion yn enfawr ac fe fyddan nhw’n amrywio i wahanol unigolion - mae’n debyg y bydd buddion unigol a allai newid bywydau”.* Roedd arweinwyr y Prosiectau o’r un farn*: “Heb Y GIE, byddai bwlch sylweddol yng Nghymru ar gyfer y math hwn o gyllid llesiant ar gyfer y rheiny sydd mewn peryg o fod yn segur, yn unig a byw mewn amddifadedd. Mae’n ymdrech ar y cyd difyr rhwng LIC, CC a ICC sy’n cydnabod y cysylltiadau rhwng eu hamryw amcanion (llesiant, gweithgarwch corfforol, iechyd) ac mae’n trosoli eu harian a’u sgiliau i gynnal rhaglen sy’n goresgyn ffiniau rhwng sectorau”.*

*3.15* Roedd tîm Y GIE oll yn cytuno’n gryf yr oedd llawer mwy na 17 prosiect yn bodloni’r meini prawf ac yn gymwys i ennill y cyllid. Bu i ein hadolygiad o ddogfennau’r ymgeiswyr gadarnhau ein safbwynt bod y ceisiadau llwyddiannus yn drylwyr a manwl ac yn bodloni amcanion datganedig Y GIE. Mae trosolwg o bob un o’r 17 Prosiect yn Nhabl 3.2.

| **Tabl 3.2: Prosiectau’r GIE: Enw’r prosiect, disgrifiad cryno, y prif gorff a grant Y GIE o gymharu â chyfanswm cost y Prosiect mewn £Mil.**[21] |
|---|
| **Super-Agers-(Partneriaeth Cwm Taf):** Gweithgareddau corfforol yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn a’r rheiny gydag anabledd neu salwch hirdymor: CBS Pen-y-bont ar Ogwr: £490/531 |
| **Dewch i Gerdded Gorllewin Cymru:** Grwpiau Cerdded cysylltiedig â Meddygfeydd Teulu: Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro £400/400 |
| **Rhaglen Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru:** Gweithgareddau corfforol a chwarae dwys yn y gymuned i bobl ifanc: Blynyddoedd Cynnar Cymru (a Gymnasteg Cymru) £371/394 |
| **Tyfu Gyda’n gilydd (Ne/De Ddwyrain Cymru):** Gweithgareddau tyfu bwyd i bobl o bob oedran: |

[21] Bu i ymgeiswyr y Prosiectau a’u partneriaid dalu gweddill y cyllid, gydag arian parod ar adegau ac mewn nwyddau ar adegau eraill.

| Tabl 3.2: Prosiectau'r GIE: Enw'r prosiect, disgrifiad cryno, y prif gorff a grant Y GIE o gymharu â chyfanswm cost y Prosiect mewn £Mil.[21] |
|---|
| Cadwch Gymru'n Daclus £289/289 |
| **HAPPy (Casnewydd):** Gweithgareddau yn Nhŷ Tredegar i bobl ifanc, y rheiny sy'n byw mewn tlodi neu sy'n ddifreintiedig: Ymddiriedolaeth Genedlaethol Tŷ Tredegar: 280/309 a 293/247[22] |
| **Cyfeillion Cerdded Cymru (D a DDd Cymru):** Gweithgaredd grwpiau cerdded bach dwys i bobl hŷn: Living Streets Cymru: £224/255 |
| **Prosiect Ymgysylltu i Deuluoedd (D/DDd Cymru a'r Cymoedd):** Gweithgareddau partner / cymunedol ar gyfer pobl ifanc neu anabl, neu sy'n byw mewn tlodi / sy'n ddifreintiedig: StreetGames UK Ltd: £399/694 |
| **Atgofion Chwaraeon CBC Rhwydwaith De Cymru:** Llesiant drwy hel atgofion am chwaraeon a gweithgareddau chwaraeon £400/887 |
| **Bywydau Cytbwys ar gyfer Cartrefi Gofal:** Gwella iechyd a llesiant preswylwyr cartrefi gofal yn Abertawe drwy weithgareddau corfforol a chymdeithasol mewn cartrefi gofal i'r henoed drwy wirfoddolwyr a hyrwyddwyr: Ymddiriedolaeth Action for Elders £260/260 |
| **Agor y Drysau i'r Awyr Agored:** Gweithgareddau cerdded / dringo yn yr awyr agored i grwpiau er mwyn mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl yng Ngogledd Orllewin Cymru: Y Bartneriaeth Awyr Agored £230/353 |
| **Llysgenhadon Chwarae (Caerdydd a'r Fro):** Cynyddu chwarae mewn 10 cymuned gyda 60 o Lysgenhadon Chwarae wedi'u recriwtio a'u hyfforddi: Chwarae Cymru £179/197 |
| **Pum Ffordd at Les:** Gweithgareddau Corfforol i Hybu Lles Meddwl – Fflint/Wrecsam: Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) i gynnig gweithgareddau i bobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl, ac sydd mewn peryg o ddatblygu problemau iechyd meddwl (gwasanaeth cymunedol): Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr £303/484 |
| **Coed Actif Cymru:** Presgripsiynu Cymdeithasol yn y Goedwig – Cenedlaethol: Gweithgareddau a hyfforddiant yn y goedwig i wirfoddolwyr, grwpiau a phartneriaid gofal iechyd: Coed Lleol £383/827 |
| **BeActive RCT -** ymwneud â phobl a chymunedau i wella lles: Rhaglen aml-asiantaeth o weithgareddau chwaraeon a chorfforol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn 6 cymuned gydag anghydraddoldebau iechyd difrifol: Interlink RCT £400/557 |
| **Babi Actif (Gogledd Orllewin Cymru):** Cefnogaeth i rieni gadw'n heini yn yr awyr agored gyda'u babanod yn ystod y cyfnod beichiogi hyd at pan fyddan nhw'n 2 oed: Eryri-Bywiol Cyf £211/261 |

[22] Yn yr achos hwn, bu i'r cyfanswm roedd y prosiect yn chwilio amdano a'r cyfanswm gaiff ei gynnig newid yn ystod y broses ymgeisio a chymeradwyo

| Tabl 3.2: Prosiectau'r GIE: Enw'r prosiect, disgrifiad cryno, y prif gorff a grant Y GIE o gymharu â chyfanswm cost y Prosiect mewn £Mil.[21] |
|---|
| **Corff Iach – Meddwl Iach (Caerdydd):** Gweithgareddau ffitrwydd corfforol ac i'r teulu ar gyfer merched Croenddu ac o Gefndiroedd Ethnig Lleiafrifol a'u teuluoedd: Women Connect First £375/453 |
| **Casnewydd Iach ac Actif:** Cynghrair o gyrff statudol a chyrff eraill yng Nghasnewydd i gydweithio mewn ysgolion a chymunedau: Casnewydd Fyw £374/564 |

3.16 Mae tabl 3.3 isod yn dangos sut mae'r Prosiectau hyn yn cyd-fynd â'r ardal darged y bu i'r GIE ei bennu, fel caiff ei nodi yn y canllaw a'r templed cais terfynol.

**Tabl 3.3: Nifer o Brosiectau a'r ardaloedd targed**

| **TARGED** | **Nifer y Prosiectau** |
|---|---|
| *Demograffig Targed* | |
| Plant a phobl ifanc hyd at 24 oed | 10 |
| Pobl gydag anabledd neu salwch hirdymor | 6 |
| Pobl sy'n byw mewn tlodi neu sy'n ddifreintiedig | 9 |
| Pobl hŷn a'r rheiny sydd o gwmpas oedran ymddeol | 9 |
| Pobl o bob oedran | 4 |
| *Math y gweithgaredd* | |
| Gweithgaredd corfforol | 12 |
| Gweithgaredd corfforol a chwaraeon | 5 |
| *Ardal prosiect dymunol* | |
| Yn Ardal Tasglu'r Cymoedd | 6 |
| Ceisio cryfhau asedau cymunedol | 14 |
| Ymchwilio a mynd i'r afael gyda chyfraniad technoleg ddigidol | 6 |

3.17 Ar y cyfan, bu i gyfweledigion Y GIE ystyried yr ystod o Brosiectau a'r effaith ddichonol i'w buddiolwyr yn gadarnhaol dros ben: *" Gan fwrw golwg ar yr 17 prosiect, maen nhw'n ymdrin â'r holl ardaloedd demograffig ac mae yna ystod eang e.e. mae rhai mewn cartrefi preswyl ac mae nifer o rai ar gyfer blynyddoedd cynnar, felly maen*

*nhw'n addas dros ben. Mae yna hefyd brosiectau sy'n ymwneud â mynd i'r afael gyda chyflyrau hirdymor a materion penodol fel dementia".* Bu pawb yn gytûn bod y broses ymdrin â'r grwpiau targed arfaethedig yn deg a chytbwys. Mae'r prosiectau ar wasgar cytbwys ledled Cymru hefyd. Dim ond dau awdurdod lleol (Sir Ddinbych a Powys) sydd heb eu henwi fel lleoliadau prosiect penodol, ac mae dau Brosiect cenedlaethol ar waith yno. Fel y trafodwyd yn yr adroddiad Theori Newid, mae pawb yn gytûn y bu hyn yn gyd-ddigwyddiad ffodus yn hytrach na chynllun penodol. Roedd rhesymeg ynghlwm â'r cynlluniau marchnata a hyrwyddo, gyda'r nod o ofalu bod ymgeiswyr arfaethedig yn meddu ar gyfle teg i fanteisio ar y grant, drwy hyrwyddo ar draws rhanbarthau a manteisio ar sianelau cyfathrebu mudiadau trydydd parti perthnasol. Fodd bynnag, doedd y cyfweledigion ddim yn gwbl sicr beth fyddai'r canlyniad pe bai'r 17 prosiect ar y brig ddim ar wasgar 'naturiol' ledled y wlad. Yn ei hanfod, gallai'r Prosiectau ar y brig fod wedi deillio o'r un ardal, neu yn canolbwyntio ar un grŵp targed fel pobl hŷn. Roedd y tîm yn ymwybodol o oblygiadau gwleidyddol gogwydd daearyddol. Bu i'r cyfweledigion ddamcanu mewn achosion eithafol o'r fath, gallai fod hyn wedi arwain at Fwrdd y Prosiect yn gofyn i'r panel asesu am bwysoli'r sgorau er mwyn gofalu bod y canlyniad yn fwy cytbwys. Fodd bynnag, gellid herio addasiad o'r fath i'r meini prawf o ran asesu. Yn ymarferol, bu i dîm Y GIE liniaru'r peryg o ledaeniad daearyddol 'gwael' drwy'r dull marchnata a chyfathrebu a oedd yn ymwneud ag ymgeiswyr arfaethedig ledled Cymru gyfan.

3.18 O ganlyniad i'r broses, cafodd partneriaid 'newydd' eu hariannu. Gellid ystyried hyn yn ganlyniad cadarnhaol. Bu i un uwch weithredwr yn y maes chwaraeon leisio pryder nad oedd mudiadau chwaraeon yn elwa o'r cyllid grant cymaint ag yr oedden nhw'n ei ddisgwyl. Yn sgil hyn bu hanes o anfodlonrwydd a theimlad o golli cyfle rhag chwarae rhan lawn yn y meysydd newydd hyn o weithgarwch. Prin ydy'r nifer o fudiadau chwaraeon sy'n arwain Prosiectau ymysg yr 17 llwyddiannus, er hynny mae sawl un ynghlwm fel partneriaid cyflawni. Mae'n bosib na fu'r partneriaethau arfaethedig rhwng chwaraeon a iechyd mor effeithiol ar lefel Prosiect ag oedden nhw ar lefel Rhaglen. Ar un law dydy hyn ddim yn broblem – roedd y mudiadau ynghlwm yn ymwybodol o'r cyfle ac roedd modd iddyn nhw ymgeisio. Fodd bynnag doedd eu ceisiadau ddim yn bodloni'r meini prawf cymaint â'r prosiectau hynny cafodd eu dewis, roedd hyn yn rhannol yn dangos natur 'dewisol' rhai chwaraeon. Bu i reolwyr prosiect Y GIE roi cyflwyniad i fforwm Prif Swyddogion Gweithredol o Gyrff

Llywodraethu Cenedlaethol yn Hydref 2019 i amlygu'r rhesymau pam y bu rhai ceisiadau yn llwyddiannus a rhai eraill yn aflwyddiannus.

3.19 Er hynny, mae'n bosib mai'r anfantais yn sgil hyn fyddai na fydd mudiadau chwaraeon traddodiadol yn gwbl ynghlwm â siartio'r cynlluniau 'iach ac egnïol' newydd hyn fel y disgwyl. Er eu bod yn y tymor canolig yn weithredwyr arweiniol pwysig dichonol yn helpu chwaraeon i ailgyfeirio i ymwneud â phryderon llesiant ehangach. Mae mudiadau chwaraeon yn fwyfwy ymwybodol bod ennill cyllid cyhoeddus a derbyn cefnogaeth ar gyfer eu gwaith yn dibynnu ar y Llywodraeth yn cydnabod bod gan chwaraeon sawl budd cyfatebol sy'n berthnasol i nodau craidd gwasanaethau cyhoeddus sylweddol fel addysg ac iechyd. Mae'n bosib y bydd angen mwy o gefnogaeth, arweiniad a heriau arnyn nhw i ofalu eu bod yn manteisio ar gyfleoedd i ymchwilio ac ymarfer y cysylltiadau hynny.

3.20 Fodd bynnag, roedd cyfweledigion eraill o'r farn y bu i'r GIE gyflawni "cymysgedd gwell o bartneriaid newydd" o gymharu â Rhaglenni blaenorol yn sgil canllaw a manylebau'r grantiau ynghyd â'r dull cydweithredol ar waith. Mae'n bosib y byddai'r partneriaid newydd yn fwy effeithiol i ymwneud yn gadarnhaol gyda buddiolwyr ar lawr gwlad sydd ymhellach o lawer o 'chwaraeon', ac sydd ddim yn rhan o'r rhwydweithiau y mae partneriaid 'traddodiadol' Chwaraeon Cymru yn rhan ohonyn nhw.

## 4. Dylunio a Chyflawni

4.1 Mae rhaglenni cymorth grant yn siapio'r Prosiectau maen nhw'n eu hariannu. Mae hynny'n amlwg ohono'i hun ac yn deillio o nodweddion sylfaenol unrhyw Raglen benodol - ei amcanion, y cyfanswm cyllid sydd ar gael, y meini prawf o ran cymhwysedd ac ati. Gallai'r broses o weithredu Rhaglen hefyd ddylanwadu ar brosesau dylunio a chyflawni'r Prosiectau wedi'u hariannu. Roedd Llywodraeth Cymru'n awyddus yn arbennig i werthuso sut bu I broses Y GIE ddylanwadu ar y cwmpas, graddau'r cydweithio, gallu staff, monitro a gwerthuso, risgiau a'r cynaladwyedd ynghlwm. Caiff y meysydd amrywiol hynny eu crybwyll yn yr Adran hon.

4.2 Ar y cyfan, bu i gwmpas a dyluniad eang Y GIE a'i hegwyddorion annog ystod eang o ymgeiswyr arfaethedig i gyflwyno ceisiadau. Cafodd 'priodoldeb' y grant ei grybwyll mewn sawl cyfweliad gydag Arweinwyr y Prosiectau. Mae'n debyg y bu i sawl Prosiect ymwneud â syniadau a oedd eisoes yn bodoli ac a oedd wrthi'n cael eu datblygu mewn rhai achosion. Bu i'r GIE ganiatáu'r rhain i ddatblygu a gyda chwmpas mwy eang. Bu'r gronfa hefyd annog Prosiectau i ehangu eu gweithgareddau a/neu weithio mewn ffyrdd gwahanol - fel cydweithio gyda phartneriaid ychwanegol a gyda grwpiau targed neu ranbarthau newydd.

**Cwmpas**

4.3 Yn sgil amcanion cyffredinol ac eang Y GIE, roedd cwmpas sylweddol gan y Prosiectau i lunio cynigion fyddai'n diwallu'r anghenion roedden nhw'n gobeithio mynd i'r afael gyda nhw, ynghyd â chyfrannu tuag at nodau cyffredinol y Rhaglen. Bu i gyfarwyddyd Y GIE drafod paramedrau yn amlygu'r grwpiau targed oedd Llywodraeth Cymru'n eu hystyried yn flaenoriaeth. Ymysg y grwpiau hynny oedd y rheiny oedd yn lleiaf tebygol o gadw'n heini a/neu byddai o bosib yn elwa yn enwedig o well iechyd meddwl ynghlwm â chynyddu lefelau gweithgarwch corfforol. Fodd bynnag roedd y meini prawf sylfaenol o ran cymhwysedd yn eang dros ben - disgrifiodd un o'r rheiny gafodd eu cyfweld, *"mae pawb yn gymwys ar gyfer Y GIE mewn gwirionedd".* Roedd y paramedrau gafodd eu mabwysiadu yn gyfle i ystod amrywiol o Brosiectau ddatblygu, fel y gwelson ni.

**Cydweithio**

4.4 Un o'r prif ofynion o ran dyluniad Y GIE oedd gofalu bod cydweithio[23] yn rhan annatod o ddyluniad Prosiectau o'r cyfnod ymgeisio a chynllunio hyd at eu cyflawni. Cafodd hyn ei grybwyll yn y Galwad am Geisiadau a'r Canllaw: *"Bydd gofyn i'r holl Brosiectau ymwneud â sawl partner yn ystod y camau dylunio a chyflawni ond fe fydd yn rhaid sicrhau bod lleiafswm o ddau fudiad o wahanol sectorau ac mae'n rhaid i'r corff arweiniol fod yn gorff Trydydd Sector neu Sector Cyhoeddus. Pan fo partneriaethau / cydweithrediadau sydd eisoes yn bodoli, mae'n bwysig dangos y byddai partneriaid newydd ynghlwm i geisio dod o hyd i gyllid grant drwy'r cynllun hwn neu fod y prosiect yn weithgaredd newydd gan y bartneriaeth / cydweithrediad sydd eisoes yn bodoli"*[24].

4.5 Bu'r agwedd cydweithio hefyd ynghlwm â'r trefniadau cefnogaeth ar gyfer ymgeiswyr. Roedd aelodau tîm Y GIE y bu inni eu cyfweld yn awyddus i greu cyfleoedd rhwydweithio i ymgeiswyr arfaethedig o'r cychwyn cyntaf, felly bu iddyn nhw ddylunio sioeau teithiol i fynd i'r afael â hyn: *"Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i ymgeiswyr arfaethedig rwydweithio gyda chyrff eraill oedd â diddordeb yn y cynllun. Roedd hyn yn gyfle yr oedden ni'n awyddus i'w gynnig drwy gydol y broses gyfan. Y nod oedd osgoi dyblygu ceisiadau prosiect, dwyn pobl ynghyd a rhannu adnoddau/syniadau – sy'n cyd-fynd gyda'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol".* Dywedodd aelod arall o dîm Y GIE: *"Roedd cydweithio yn annatod ac yn rhan flaenllaw o'r cynllun. Roedd yn amod ar gyfer derbyn cyllid".*

4.6 Bu i'r broses DoDd yn dilyn hynny ymwneud â chydweithio hefyd, gan ofyn i ymgeiswyr am restru cydweithwyr a disgrifio beth fyddai partneriaid cyflawni yn ei gyfrannu. Nod hyn oedd gofalu bod elfen i gynllunio ar y cyd ar waith o'r cychwyn cyntaf. Fel rhan o'r broses DoDd hefyd, roedd gofyn i ymgeiswyr ddwyn i ystyriaeth (yn gryno) eu strwythur llywodraethu arfaethedig, eu trefniadau i reoli'r prosiect a chyllid, y risgiau a'u trefniadau monitro arfaethedig.

4.7 Yn ystod Cam 2, roedd defnyddio'r model pum achos busnes fel rhan o'r broses ymgeisio yn llywio'r ymgeiswyr i ystyried gallu'r staff, monitro a gwerthuso, risgiau a chynaladwyedd fel rhan o'u cynigion. Roedd gofyn i ymgeiswyr lunio Achos Busnes yn ddull newydd a/neu'n derminoleg newydd ar gyfer rhai o'r ymgeiswyr. Roedd yn

[23] Caiff cydweithio ar lefel Rhaglen ei drafod yn Adran 6 isod

[24] Galwad am Geisiadau a Chanllaw Cyllid y Gronfa Iach ac Egnïol Hydref 2018

seiliedig ar elfennau craidd o'r model pum achos wedi'i argymell gan Drysorlys EM a Llywodraeth Cymru ond wedi'u haddasu er mwyn ymdrin â gofynion Y GIE. Wedi bwrw golwg ar wahanol dempledi a systemau sgorio, fe benderfynodd tîm Y GIE lunio model unigryw i ofalu bod cysondeb wrth asesu'r ceisiadau a "gweithredu'r ymarfer gorau y bu inni ei grybwyll yn y sioeau teithiol - yr hanfodion inni". Bu i'r templed Achos Busnes dilynol[25] ar gyfer yr ymgeiswyr gynnig cyfarwyddyd iddyn nhw i ddangos y cysylltiad a fwriadwyd rhwng amcanion strategol y Prosiect ac amcanion cyffredinol Y GIE.

4.8 Bu i sawl Prosiect gynnig adborth cadarnhaol ynghylch y broses achos busnes. Roedd yn her iddyn nhw, ond roedd hefyd yn fodd iddyn nhw feddwl a chynllunio ymlaen llaw, yn enwedig o ran ystyried cwestiynau gwerthusiad y Prosiect sef agwedd yr oedd gofyn i Brosiectau eu hunain ymgymryd â hi. Bu i'r gwaith paratoi trylwyr a gofynnol arbed amser i'r ymgeiswyr llwyddiannus yn ystod cyfnod sefydlu'r Prosiect.

4.9 Fodd bynnag, ni chaiff agweddau penodol o'r meini prawf cychwynnol o ran derbyn cyllid eu geirio'r un fath â'r templed Achos Busnes yn ystod Cam 2. Bu i'r meini prawf cychwynnol grybwyll y caiff ceisiadau llwyddiannus eu dewis ar sail y meini prawf canlynol[26] :

- Achos Newid;
- Gallu a Chydweithio;
- Gwerth am Arian; ac
- Arloesedd.

4.10 Bu terminoleg wahanol yn y templed Achos Busnes: yr Achos Strategol, Achos Economaidd, Achos Masnachol, Achos Ariannol ac Achos Rheoli.

4.11 Yn ein hadolygiad o ddogfennau'r Rhaglen, roedd gwerth am arian yn agwedd lle'r oedd rhesymeg a theori newid y Rhaglen yn llai amlwg a chryf. Dydy hi ddim yn amlwg chwaith i ymgeiswyr neu aseswyr sut gafodd y maen brawf ei drosi o'r ddogfen gyfarwyddyd cychwynnol i ymgeiswyr[27] hyd at y templed Achos Busnes. Yn y ddogfen gyfarwyddyd i ymgeiswyr, ystyr gwerth am arian ydy: *"Mae'r prosiect yn dangos gwerth am arian da o ran y nifer o bobl maen nhw'n cysylltu gyda nhw yn*

[25] Y Gronfa Iach ac Egnïol – Templed Achos Busnes
[26] Briff Prosiect Y Gronfa Iach ac Egnïol, Briff Prosiect Terfynol a Galwad am Gesiadau a Chanllaw Cyllid Y Gronfa Iach ac Egnïol 2018
[27] Galwad am Gesiadau a Chanllaw Cyllid Y Gronfa Iach ac Egnïol 2018

*berthnasol i'r cyfanswm o fuddsoddiad gofynnol ac mae achos busnes pendant ar gyfer parhau gyda'r prosiect y tu hwnt i'r cyllid cychwynnol. Mae yna hefyd dystiolaeth o'r modd i ddatblygu Prosiectau i ddiwallu anghenion ehangach y boblogaeth os oes angen".* Fodd bynnag, ni fu'r templed Achos Busnes yn cyfeirio at 'gwerth am arian' i ymgeiswyr ond fe gafodd ei groesgyfeirio ar gyfer aseswyr i ddangos ym mha rannau o'r Achos Busnes y mae'n bosib caiff ei farnu. Yn hytrach, cafodd yr ymgeiswyr eu hannog i fwrw golwg ar y templed Achos Busnes i gynnig gwybodaeth am eu model cyflawni, ffynonellau cyllid, niferoedd staffio, rheoli'r 'tapr' cymorth grant ym mlwyddyn 3, ynghyd â chynaladwyedd neu'r etifeddiaeth wedi i'r cyllid ddod i ben. Ni chafodd Gwerth am Arian o ran nifer y buddiolwyr a chost y pen ei amlygu fel ystyriaeth.

4.12 Bu i hyn ddangos datblygiad yn rhesymeg y Rhaglen yn ymwneud ag arloesedd a dysgu yn hytrach na darpariaeth ar gyfer nifer fawr o fuddiolwyr. Mae'r newid hwn yn bwysig, gan y bu iddo helpu i ddatrys gwahanol safbwyntiau ymysg y partneriaid lefel Rhaglen o ran lle'r oedd gwerth canolog Rhaglen Y GIE[28]. Cafodd dysgu ac arloesedd eu hystyried yn gywir o feddu ar werth dichonol na gaiff ei fynegi orau o ran y nifer o fuddiolwyr uniongyrchol.

**Monitro a Gwerthuso**

4.13 Bu i'r GIE annog canolbwyntio'n sylweddol ar ddysgu o Brosiectau o ran y mathau o ddulliau sy'n llwyddiannus yn ymarferol. Roedd monitro a gwerthuso ar lefel Prosiect a Rhaglen yn annatod i ddyluniad Y GIE a dywedodd tîm Y GIE ac Arweinwyr y Prosiectau bod y broses honno'n adfywiol a chadarnhaol. Dyma oedd ynghlwm â gweithredu'r broses monitro a gwerthuso:

- Bu'r cam DoDd yn ymwneud â monitro a gwerthuso yn gynnar yn y broses, gan ofyn i ymgeiswyr drafod eu trefniadau monitro, gan gynnwys sut y byddan nhw'n monitro allbynnau uniongyrchol a mesur a chynnig tystiolaeth o'u deilliannau sydd wedi'u nodi;
- Yn ystod Cam 2 roedd gofyn i arweinwyr y Prosiectau ymdrin â'u modelau rhesymeg fel rhan o'u cais, fel sylfaen cadarn ar gyfer gwerthuso dilynol yn ymwneud â'r broses a'r deilliannau; a

[28] Gwelwch Adroddiad Gwerthuso Theori Newid y GIE (Mawrth 2021). Yn gryno, roedd rhai aelodau o bartneriaeth yr HAF yn amau y gallai rhaglen grant fel Y GIE arwain at newid yn lefel y boblogaeth. Bu i'r pwyslais cryfach ar arloesi ddarparu pwynt cadarnhaol o ran amcanion ar y cyd rhwng y partneriaid.

- Cyflwyno pecyn offer monitro a gwerthuso ar Ionawr y 24ain 2019 gan ddefnyddio adnoddau arolygu safonol i hwyluso mesur dilys o ddeilliannau ar lefel cyfranogi. Mae gofyn i Brosiectau ddefnyddio'r HGCRh neu'r Holiadur Gweithgarwch Corfforol i Blant Hŷn (PAQ-C) i fesur lefelau gweithgaredd corfforol eu buddiolwyr a/neu'r Raddfa Llesiant Plant Stirling (8-13 oed) a Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin (13+) i fesur llesiant meddwl.

4.14 Bu i Iechyd Cyhoeddus Cymru arwain ar y gwaith dylunio prosesau monitro a gwerthuso a chynnig cefnogaeth i ymgeiswyr. Bu iddyn nhw gyflawni hyn drwy ddatblygu'r pecyn offer a drwy gynnal cyflwyniadau mewn gweithdai. Mae gofyn i Brosiectau gasglu data safonol am y rheiny sy'n cymryd rhan er mwyn cynnig sail gyffredin er mwyn cymharu gydag a barnu deilliannau'r Prosiect i fuddiolwyr. Caiff y data ei gasglu ac fe fydd yn ffurfio rhan o'r gwerthusiad lefel Rhaglen gyffredinol.

4.15 Fodd bynnag, bydd gwerthusiadau ar lefel Prosiect yn ymdrin â data llawer mwy eang na'r data safonol yn unig. Mae gofalu bod mesur cyson yn ymwneud â'r holl Brosiectau yn ddymunol er mwyn cynnig tystiolaeth o ddeilliant allweddol ar gyfer Prosiectau a'r Rhaglen yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag mae angen i Brosiectau fwrw golwg y tu hwnt i fesurau mesurol o gymryd rhan gan eu bod yn ystyried y bydd eu heffaith yn fwy eang na hynny. Yn wir, cafodd deilliannau ehangach o'r fath eu hannog yn gryf yn ystod proses ymgeisio'r GIE, o ran y gallai gwerth y ceisiadau ddangos deilliant o 'gryfhau asedau cymunedol'.

4.16 Does yna ddim dulliau ar waith hyd yn hyn i sicrhau safon a chysondeb ar draws y gwerthusiadau lefel Prosiect. Mae Swyddogion Achos wedi'u penodi ar gyfer Prosiectau er mwyn cefnogi'r broses casglu data craidd, ond dydyn nhw ddim o reidrwydd yn meddu ar y sgiliau yn y maes gwaith hwn i allu cynnig cyngor heb gyfeirio'n ôl at Grŵp Gwerthuso'r GIE. Roedd angen amser ar y rheiny sydd wedi cytuno I weithredu fel Swyddogion Achos (yn ychwanegol i'w llwyth gwaith arferol) i ymgyfarwyddo mewn rhai achosion gyda Rhaglen Y GIE a'u Prosiectau penodol ac er mwyn datblygu perthnasau sydd ddim yn bodoli eisoes. Mae'n bwysig nodi mai'r Prosiectau eu hunain sy'n gyfrifol am gyflawni gwerthusiad proses a deilliannau ar lefel Prosiect. Dydy hynny ddim yn amodol ar sicrhau ansawdd penodol ar lefel Rhaglen, a fyddai'n ddwys o ran adnoddau[29].

[29] Bu i aelod o dîm Y GIE amcan bod angen rôl 0.5 cyfwerth ag amser llawn i gyflawni'r swydd hon

4.17 Ar lefel prosiect, caiff y gofynion monitro a gwerthuso eu hystyried yn heriol gan rai, fodd bynnag nid ydy hyn yn golygu eu bod o'r farn na ddylid rhoi cynnig arnyn nhw. Dyma faes lle mae'n debyg fod gan Y GIE ychydig o effeithiau negyddol anfwriadol ar y cyflawniad a'r profiad i'r gweithlu gweithredol a'r buddiolwyr. Mae hyn oherwydd nad ydy'r adnoddau safonol yn addas ar gyfer yr holl fuddiolwyr (yn enwedig blynyddoedd cynnar a phreswylwyr cartrefi gofal) ac mae eu natur ffurfiol yn annymunol i gynulleidfa targed sydd eisoes yn wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau corfforol[30]. Mewn rhai achosion, caiff adnoddau eraill eu defnyddio'n lleol eisoes i fesur llesiant ac mae'n bosib y byddai'r rhain yn fwy dymunol i'r gweithlu a'r buddiolwyr. Mae rhai Prosiectau gyda mwy o bartneriaid cyflawni – i gyd yn cynnig gwahanol fathau o weithgareddau i wahanol gynulleidfaoedd – yn ofni y byddai cydlynu'r monitro a'r adnoddau ychwanegol gofynnol ymysg y staff, i gasglu'r wybodaeth yn gyson i sicrhau ansawdd uchel, yn heriol ac yn ddwys o ran adnoddau.

4.18 O safbwynt tîm Y GIE, roedden nhw â'r bwriad o gyflawni dull 'mwyaf addas' gan fod llawer o'r adnoddau dilys wedi'u dylunio ar gyfer ymchwil neu arolygiaeth hydredol sylweddol yn hytrach na'r mathau o weithgareddau y mae'r GIE yn eu cefnogi. Roedd yn ymdrech i geisio dewis adnoddau oedd fwyaf addas o ran dilysrwydd a dibynadwyedd yn ogystal â rhai oedd modd eu defnyddio ar gyfer ymyraethau iechyd cyhoeddus cymhleth aml-gyfansoddyn fel Prosiectau'r GIE. Mae'r adnoddau mesur gweithgarwch corfforol wedi'u dilysu ar gyfer poblogaethau iach yn unig, ac mae'r adnoddau llesiant wedi'u dilysu i'w defnyddio ar gyfer poblogaethau iach a phobl gyda namau corfforol a gwybyddol ysgafn i gymedrol. Mae'r Prosiectau wedi'u cynghori y dylen nhw ond gweinyddu'r adnoddau mesur os ydy hynny'n hyfyw ac yn dderbyniol i'w buddiolwyr.

4.19 Bu i'r Prosiectau lunio eu cynigion cyn canfod mwy am yr adnoddau penodol y dylen nhw eu defnyddio neu y mae gofyn i'w partneriaid cyflawni eu defnyddio. Roedden nhw o'r farn y cafodd y manylebau a'r pecyn offer monitro a gwerthuso eu cyflwyno ychydig yn hwyr yn y broses yn ystod Cam 2. Wrth edrych yn ôl, gallai fod hyn wedi'i gyflwyno'n gynharach fel nad oedd angen i ymgeiswyr adolygu eu cynigion monitro a

[30] Tynnodd Chwaraeon Cymru sylw at enghreifftiau gan amryw grwpiau targed sydd wedi'u cefnogi drwy Raglen y Loteri Fawr 'Mentro Allan'.

gwerthuso gwreiddiol ac i ofalu eu bod yn neilltuo adnoddau digonol ar gyfer y maes hanfodol hwn.

4.20 Yn fwy cadarnhaol, mae gan rhai o'r Prosiectau gynlluniau gwerthuso hollgynhwysol ar waith eisoes, ac fe allai'r rhain gynnig tystiolaeth ac addysg werthfawr ac ychwanegol y mae modd eu rhannu. Roedd hyn yn ddymunol yn ôl rhai Prosiectau, fel y bu i un arweinydd Prosiect awgrymu: *"Bydd gwerthuso'n broses parhaus inni allu dysgu o brofiadau, rhannu gyda phartneriaid i fynd i'r afael gydag unrhyw anghenion ychwanegol neu wneud newidiadau drwy gydol y prosiect os yn briodol. Mae'r model rhesymeg yn boddhau'r broses hon - profiad gwerthfawr yn llunio'r ddogfen hon".* Caiff naw o'r 17 Prosiect eu cefnogi gan ymchwilwyr o Sefydliadau Addysg Uwch, ac mewn rhai achosion, fe fydd myfyriwr Ysgoloriaeth Sgiliau Economi Gwybodaeth (KESS) ynghlwm â hyn hefyd.

4.21 Bydd goruchwylio ansawdd gwerthusiadau unigol a chyflawni data lefel Rhaglen hollgynhwysol gan ystod mor amrywiol o Brosiectau yn heriol ond mae hyn wedi'i ystyried yn benodol yng ngrŵp Y GIE. Bu'r GIE yn flaengar yn sicrhau bod gwerthuso yn rhan o'r cais a'r broses cyflawni barhaus. Mae'n bosib y bydd ffyrdd inni allu datblygu'r fframwaith gwerthuso ar gyfer Prosiectau ymhellach yn ystod cyfnod gweithredu'r Prosiect. At hynny, mae'n bosib y byddai dysgu am y ffordd hon o gyflwyno cyllid gyda gwerthusiad lefel prosiect ynghlwm yn bwysig, ynghyd â dysgu am ba mor effeithiol (neu aneffeithiol) ydy hynny.

**Risg**

4.22 Bu i raglen Y GIE ganiatáu cymryd mwy o risgiau ar bwrpas o gymharu â Rhaglenni blaenorol bu tîm Y GIE ynghlwm â nhw, fel caiff ei grybwyll yn y sylw hwn am ddyluniad Y GIE: *"…roedd yn fwriad gennym ni i gyfathrebu gyda mwy o bobl nag arfer - gyda mudiadau oedd â syniadau gwerth chweil ond heb gyllid i'w cyflawni. Felly, mae'n bosib y byddan nhw'n gweithio ar gynlluniau prawf i raddfa llai yn nes ymlaen. Roedd y Gweinidogion yn fodlon gyda'r dull ac yn gobeithio sicrhau bod y gronfa yn fodd i Brosiectau a mudiadau ddysgu am fethiannau ac i deimlo'n rhydd i gymryd risgiau".*

4.23 Cafodd Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru eu hannog i ariannu meysydd nad oedden nhw'n gyfarwydd gyda nhw cyhyd â bod rhesymau cadarn dros y penderfyniad a'u bod yn cydweithio gyda'r gynulleidfa targed, fel caiff ei grybwyll yn y sylw canlynol am y broses asesu: *"Roedd aelodau'r panel yn onest - mae'n bosib y*

*byddan nhw'n dweud 'dw i ddim yn gwybod, ond mae'r cais yn fy argyhoeddi, mae'n ymwybodol o'r grŵp targed ac maen nhw wedi ymgynghori gyda nhw'. Roedd yn bwysig eu bod nhw (yr ymgeisydd) wedi siarad gyda'r grŵp targed. Mae nifer o raglenni yn seiliedig ar ragdybiaeth am y 'rhwystrau'… mae angen I ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r cymunedau a'u hamgylchiadau".*

4.24 Bu i'r templed cais ganiatáu'r farn honno gan iddo lywio ymgeiswyr i ddangos sut bu iddyn nhw ymgynghori neu fanteisio ar ymchwil academaidd er mwyn llunio'u cynigion.

**Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**

4.25 Mae'n bwysig cydnabod bod dyluniad a chyflawniad llwyddiannus Y GIE yn sgil trefn llywodraethu ac arweinyddiaeth Bwrdd a Thîm Y GIE yn ogystal â nodweddion dylunio penodol. Bu'r arweinyddiaeth ar y cyd rhwng timau polisi Llywodraeth Cymru a'r cydweithio rhwng y pedwar prif bartner yn fodd iddyn nhw ddylunio'r rhaglen gan fanteisio ar brofiad eang yr holl bartneriaid. At hyn, roedd yn fodd i roi syniadau ar brawf a'u herio mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol, er gwaethaf unrhyw wahaniaethau o ran safbwyntiau a dulliau. Roedd modd cytuno ar ddyluniad y Rhaglen a oedd yn parchu arbenigedd amrywiol y bwrdd a chynhyrchu safbwynt cyffredin o ran nod Y GIE a sut i fynd ati i gyflawni'r nod yn y ffordd orau posib.

4.26 Roedd yr arweinyddiaeth a'r drefn llywodraethu yn addas i bwrpas o ran cyflawni prif gyfrifoldeb y Bwrdd i greu Rhaglen hyfyw ymhen amserlen dynn, gydag ystod dda o Brosiectau o safon a chronfa briodol a chyfunol gyda chyllid gan sawl ffynhonnell. Bydd cyfrifoldeb y Bwrdd yn newid yn anochel gan fod y Prosiectau ar waith erbyn hyn. Mae hyn yn cynnig cyfle i'r Bwrdd i ystyried eu dyletswydd o hyn ymlaen, ac ym mha ffordd, os bydd angen o gwbl, y bydd angen adolygu eu gweithrediadau arwain a llywodraethu.

## 5. Safbwyntiau'r Prosiectau

5.1 I fanteisio i'r eithaf ar y dysgu yn sgil proses Y GIE, mae'n hanfodol bod y gwerthusiad lefel Rhaglen hefyd yn bwrw golwg ar broses Y GIE o safbwynt y Prosiect. Nod hyn ydy deall safbwyntiau cynrychiolwyr y Prosiect ynghylch Y GIE a'r ffordd y bu iddi lywio'u gwaith. Dyma'r safbwynt byddwn yn ymdrin ag o yn yr Adran hon. Byddwn hefyd yn cyfeirio at safbwyntiau ymgeiswyr aflwyddiannus.

5.2 Cafodd cyfweliadau lled-strwythuredig eu cynnal gydag Arweinwyr yr 17 Prosiect a'u Swyddogion Achos yn ystod Haf 2019, un ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Cafodd holiadur ar-lein ei lunio ar gyfer **holl** ymgeiswyr Y GIE ac roedd ar gael i'w gwblhau yn ystod Hydref 2019. Derbyniwyd 27 ymateb - tri gan ymgeiswyr a oedd wedi cyrraedd y cam DoDd, 14 ymgeisydd Cam 2 a naw gan y Prosiectau llwyddiannus. Ni fu i un o'r ymgeiswyr ddatgan pa gam roedden nhw wedi ei gyrraedd. Roedd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn fudiadau trydydd sector a thraean yn fudiadau sector cyhoeddus. Gofynnwyd i ymgeiswyr aflwyddiannus yn y gwahoddiad i gwblhau'r arolwg ar e-bost a fyddan nhw'n fodlon inni gysylltu gyda nhw i gynnal cyfweliad er mwyn trafod eu safbwyntiau a phrofiadau mewn mwy o fanylder. Gan nodi gall y safbwyntiau ymddangos yn destun gogwydd hunan ddethol, bu i dri ymgeisydd aflwyddiannus gynnig adborth pellach defnyddiol mewn trafodaeth ffôn dilynol.

5.3 Cafodd Y GIE fel rhaglen a'i egwyddorion ei gymeradwyo. Roedd Prosiectau'n gweld angen amdani ac roedden nhw'n falch o weld cronfa Cymraeg o'r fath 'nad oedd ar gael yn aml'. Roedd yn *"chwa o awyr iach, mae'n enghraifft o arloesi yn yr amgylchedd ariannu. Roedd yn anodd manteisio ar gynllun o'r fath cyn hyn".* Dywedodd unigolyn arall: *"Rydym yn teimlo ein bod ni wedi dod o hyd i'r cynllun delfrydol wedi degawd o weithio'n arloesol!"*

5.4 O ran y broses ymgeisio a'r camau dilynol, bu inni dderbyn cymysgedd o safbwyntiau cadarnhaol a negyddol gan yr ymatebwyr. Rydym yn ystyried yr amryw elfennau proses mewn trefn gronolegol.


### Cam DoDd

5.5 Cafodd prosesau marchnata a chyfathrebu'r GIE eu cymeradwyo ar y cyfan, ar y cyd â'r arweiniad a chefnogaeth. Bu i dri chwarter o ymatebwyr yr arolwg fynychu'r sioeau teithiol ac roedd dros ddwy ran o dair o'r rheiny yn credu bod y sioeau teithiol

o fudd. Bu i ychydig dros hanner ymuno â'r grŵp Yammer ond bu adborth cymysg ynghylch defnyddio Yammer. Dywedodd y mwyafrif o ymatebwyr nad oedden nhw'n credu bod y grŵp Yammer yn ddefnyddiol, fodd bynnag ar un achlysur, fe lwyddodd ymgeisydd i ddod o hyd i bartner newydd drwy'r adnodd hwn. Dywedodd un ymgeisydd aflwyddiannus y byddai wedi bod yn adnodd defnyddiol i gynnig y diweddaraf am unrhyw oedi a phenderfyniadau.

5.6 Fel caiff ei argymell yn nogfen cyfarwyddyd y Rhaglen, bu i ychydig llai na hanner o ymatebwyr yr arolwg drafod eu cynnig gyda chynrychiolydd o dîm Y GIE, ychydig dros hanner gyda'u tîm iechyd cyhoeddus lleol a dwy ran o dair gyda'u hawdurdod lleol. Bu i ddwy ran o bump drafod eu cynnig gyda sefydliad AB neu AU. Cafodd y trafodaethau hyn eu hystyried yn 'ddefnyddiol' ar y cyfan, ond bu i ychydig o'r ymatebwyr anghytuno gyda hyn. Mae ffigur 5.1 isod yn dangos sut bu i ymgeiswyr raddio'u lefel o foddhad gydag agweddau o'r cam DoDd.

Ffigur 5.1: Lefel boddhad yr ymgeiswyr gydag agweddau o'r cam DoDd




5.7 Roedd y dogfennau ymgeisio yn ystod y cam DoDd yn eglur a hawdd i'w ddeall, ac yn cyrraedd disgwyliadau'r ymgeiswyr ynghylch grant o'r fath. Roedd dros hanner yr ymgeiswyr wnaeth ymateb i'r arolwg yn fodlon gyda chyfarwyddyd y DoDd a rhwyddineb cwblhau a chyflwyno'r ffurflen drwy'r system grantiau ar-lein. Roedd yr ymgeiswyr yn llai bodlon gyda'r amser a gymerwyd i hysbysu am benderfyniadau a defnyddioldeb y broses adborth. Fe gaiff hyn ei drafod ymhellach isod. Roedd rhaniad cyfartal rhwng y rhai a atebodd 'oeddwn' a 'nac oeddwn' i'r cwestiwn 'Yn

ystod y cam DoDd, oeddech chi'n teimlo bod modd ichi fanteisio ar gyngor a chefnogaeth barhaus gan weinyddwyr grantiau'r GIE pan oedd ei angen arnoch chi?'

5.8 Fodd bynnag, yn gyffredinol, yn dilyn arolygu'r ymgeiswyr, roedd oddeutu tri chwarter o'r ymgeiswyr o'r farn bod y cam DoDd hwn yn 'rhwydd iawn' neu'n 'eithaf rhwydd'. Roedd dim ond ychydig o wahaniaeth rhwng barnau'r ymgeiswyr llwyddiannus neu aflwyddiannus, neu rhwng y gwahanol fathau o fudiadau. Roedd bron i dri chwarter o'r ymgeiswyr trydydd sector yn teimlo bod y cam DoDd yn 'rhwydd iawn' neu'n 'eithaf rhwydd' ac ychydig dros dri chwarter o'r ymgeiswyr sector cyhoeddus o'r un farn. Bu i adborth o'r cyfweliadau gadarnhau bod yr ymgeiswyr wedi arfer cyflawni cam DoDd er mwyn ceisio am grantiau ac roedd yn bodloni eu disgwyliadau.

**Cam 2 – Cais llawn**

5.9 Yn ystod Cam 2, roedd teimladau cymysg ynghylch y gallu ymysg ymgeiswyr i ymdrin â'r broses. Cafodd y dyddiadau cau a'r gofynion eu hystyried yn eithaf beichus, hyd yn oed pan fo'r mudiad yn gyfarwydd gydag ac yn brofiadol mewn paratoi cynigion. Dywedodd sawl Prosiect bod proses Cam 2 yn gyfarwydd iddyn nhw gan fod Cronfa'r Loteri Fawr yn ymdrin â'r un broses - fodd bynnag bu iddyn nhw sôn bod y Loteri Fawr yn fwy hyblyg ac yn cynnig cefnogaeth wedi'i theilwra.


5.10 Yn debyg i'r cam DoDd, bu i dîm Y GIE roi prosesau cefnogaeth a chyfarwyddyd ar waith ar gyfer y 42 ymgeisydd Cam 2. Bu i ugain o ymatebwyr yr arolwg ddatgan pa mor ddefnyddiol oedd y prosesau amrywiol:

- Roedd tri chwarter o'r ymgeiswyr o'r farn bod pecyn offer gwerthuso'r Prosiect yn 'ddefnyddiol iawn' neu'n 'eithaf defnyddiol';
- Roedd ychydig llai na tri chwarter o'r ymgeiswyr yn credu'r oedd y gweithdy ar Ionawr yr 22ain yn 'ddefnyddiol iawn' neu'n 'eithaf defnyddiol'; a
- Dywedodd dros hanner yr ymgeiswyr bod y cyfleoedd oedd ar gael i rwydweithio gyda mudiadau eraill oedd â diddordeb yn Y GIE yn 'ddefnyddiol iawn' neu'n 'eithaf defnyddiol'.
- Cafodd Achos Busnes Cam 2 ei gymeradwyo gan fwyaf gan Brosiectau llwyddiannus, er ei fod yn 'heriol' ac wrth edrych yn ôl roedd yn ddefnyddiol (o ran ymgeiswyr llwyddiannus o leiaf). Roedd yn sylfaen cadarn i gychwyn cyflawni'r Prosiect. Bu'r gweithdy ar gyfer ymgeiswyr Cam 2 yn llwyddiannus a bu i'w ddyluniad gynnig cyfleoedd pellach i fudiadau gysylltu gyda'i gilydd, wrth i'r

*Prosiect hwn ddatgan: “Roedd hefyd yn ddefnyddiol bod yr ymgeiswyr wedi’u gwahanu i wahanol grwpiau yn y gweithdy yn ôl cysyniad / y math o brosiect… bu i hyn hwyluso rhwydweithio pellach”.*

5.11 Roedd nifer o ofynion ynghlwm â Cham 2 ac mae Ffigur 5.2 yn dangos sut cawson nhw eu hystyried gan 20 o ymatebwyr yr arolwg oedd wedi ymateb am y cam hwn.

**Ffigur 5.2: Rhagdybiaethau Cam 2 - nifer o ymatebwyr yr arolwg (allan o 20) yn sgorio'r agweddau'n 'rhwydd iawn' neu'n 'eithaf rhwydd'.**




5.12 Doedd y gofynion cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ddim yn broblem i’r rhan fwyaf o ymgeiswyr, nac ychwaith y gofyniad i ymwneud â’r ffyrdd o weithio, gaiff eu trafod ymhellach yn Adrannau 6 a 7. Fodd bynnag, doedd cwblhau’r templed Achos Busnes a chynllunio’r gyllideb ddim bob amser yn syml. Ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau, roedd y rhwyddineb neu drafferth gymharol rhagdybiedig yn debyg ni waeth a oedd yr ymgeisydd yn llwyddiannus neu’n aflwyddiannus gyda’u cais. Roedd eithriad ynghylch y gofynion monitro a gwerthuso a chwblhau’r Achos Busnes. Yma, roedd ymgeiswyr aflwyddiannus (heb syndod o bosib) yn fwy tebygol o ddweud bod y broses yn ‘anodd iawn’ neu’n ‘eithaf anodd’. Yn ystod y cam hwn, atebodd deg o’r 15 ymatebwr ‘na’ i’r cwestiwn ‘Oeddech chi’n teimlo bod modd ichi fanteisio ar gyngor a chefnogaeth barhaus gan weinyddwyr grantiau Y GIE pan roedd ei angen arnoch?’ Eto, roedd y rhan fwyaf o’r rheiny’n ymgeiswyr aflwyddiannus. Fel y dywedodd un ymgeisydd aflwyddiannus: *“Bu inni fuddsoddi llawer o amser yn mynychu Gweithdy Cam 2 ac roedden ni’n meddwl ein bod ni wedi cyflawni’r blaenoriaethau o ganlyniad ond yn amlwg nid oedden ni wedi llwyddo oherwydd y buom ni’n aflwyddiannus - buasai mwy o eglurder a mwy o gefnogaeth yn ystod y broses ymgeisio wedi caniatáu inni gydymffurfio gyda’r blaenoriaethau’n fwy effeithiol”*. Soniodd un

ymgeisydd llwyddiannus bod y broses wedi para oddeutu tair wythnos a soniodd eraill bod yn rhaid buddsoddi amser helaeth er mwyn datblygu perthnasau a chynlluniau ar y cyd effeithiol. Roedd y rhain yn allweddol ond fe allai fod yn heriol pan fo dim ond ychydig o aelodau staff yn gweithio i'r mudiad.

5.13 Roedd lefel y siom ymysg ymgeiswyr aflwyddiannus yn debygol o fod yn uchel beth bynnag. Fel y dywedodd un ymatebwr: "Roedd yr Achos Busnes yn broses eithaf beichus ac rydw i'n bryderus yr oedd angen meddu ar gryn dipyn o brofiad i gwblhau ffurflen o'r fath neu fod â pherson penodedig yn eich mudiad sy'n gyfrifol am ennill cyllid / ffurfio ceisiadau. Rydw i'n credu y gallai hyn gyfyngu ar y nifer o fudiadau sy'n gallu ymgeisio o safbwynt trydydd sector ac mae'n ffafrio'r mudiadau mwy yn hytrach na mudiadau llawr gwlad llai". Fe welwn fod ymgeiswyr eraill o'r un farn drwy fwrw golwg ar adborth yr arolwg, gyda bron i ddwy ran o dair o'r ymgeiswyr trydydd sector yn dweud bod gofynion y broses ymgeisio a'r cyfanswm o gyllid oedd ar gael yn 'anghytbwys'. Roedd hyn o'i gymharu â llai na thraean o ymgeiswyr y sector cyhoeddus, lle'r oedd y mwyafrif yn ystyried y cydbwysedd 'yn iawn mewn gwirionedd'. Mae'n bosib fod yna broblem màs critigol yma, gan fod y mudiadau mwy yn meddu ar y gallu a'r profiad i lunio ceisiadau - mae gan rai mudiadau swyddi gyda thâl ar gyfer tasgau o'r fath.

5.14 Roedd yna ddeilliannau cadarnhaol yn dilyn proses Cam 2 er gwaethaf yr heriau hynny. Yn benodol, bu i'r paratoadau ar gyfer yr Achos Busnes achub y blaen ar gyfer llawer o'r gweithgareddau angenrheidiol er mwyn datblygu'r Prosiect. Roedd modd adennill yr amser a dreuliwyd yn paratoi'r cynnig, ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus o leiaf, yn nes ymlaen: *"Roedd yn eich annog i feddwl yn fanwl – yn sicrhau bod pob cam yn haws wedi ichi gyflawni'r Prosiect, yn lleihau'r llwyth gwaith yn ystod cam sefydlu'r prosiect".* Dywedodd sawl un o'r cyfweledigion bod angen dwyn i ystyriaeth yr effaith ar y mudiadau hynny gyda llai o allu a phrofiad, a'r tebygolrwydd o dynnu sylw pobl oddi ar eu 'swydd o ddydd i ddydd'. Bu i arweinwyr y Prosiectau a'r mudiadau cyflawni nodi hyn, fodd bynnag yn y pen draw, mae modd iddyn nhw ddewis ymgeisio ai pheidio.

5.15 Fel y trafodwyd yn Adran 4, roedd nifer o'r ymgeiswyr Cam 2 o'r farn bod y prosesau monitro a gwerthuso'n heriol, ac roedd y gofynion, fel y bu iddyn nhw ei fynegi, yn "ergyd" i sawl un. Fodd bynnag fe gafodd yr angen am a phwysigrwydd monitro a gwerthuso ei ddatgan yn gynnar yn y broses yn ystod y cam DoDd. Bu i oddeutu hanner o'r 17 o Brosiectau llwyddiannus fynegi pryder ynghylch rheoli'r gofynion.

Ymysg y prif bryderon yn ymwneud â’r data monitro gofynnol oedd: *“Mae yna swm eithaf sylweddol o ddata mesurol i’w gasglu, ac o’n profiad ni, mae’n her i’r unigolion sy’n cymryd rhan a’r staff, mae’n annymunol, ac mae’n creu effaith negyddol ar brofiad yr unigolion sy’n cymryd rhan. Mae hyd yn oed y lleiafswm y mae angen inni ei gasglu yn swm sylweddol i’r grŵp targed hwn o unigolion. Buasai’n dda pe bai disgwyl inni gasglu mwy o ddata ansoddol ar y cyd â’r data mesurol”.* Fodd bynnag, ar lefel Prosiect, mae disgwyl y caiff data ansoddol ei gasglu ar lefel Prosiect a byddai’n angenrheidiol er mwyn adlewyrchu’r amrywiaeth o ymyraethau wedi’u cynllunio gan y Prosiectau. Yn wir, caiff y defnydd o ddata ansoddol ar werthusiad lefel Prosiect ei ystyried yn ymhlyg o ran y gofyniad gwerthuso i Brosiectau[31], ac fe ddylai bod y Prosiectau’n ymwneud ag elfennau ansoddol yn eu gwerthusiadau prosesau a deilliannau eu hunain.

**Hysbysiad o benderfyniadau ac adborth**

5.16 Bu adborth negyddol ynghylch hyn gan ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus. Gallem fod wedi osgoi peth o’r beirniadaethau drwy addasu’r broses, yn enwedig drwy gynnig adborth gwell. Fel rhan o’r broses fe anfonwyd llythyr gwrthod i ymgeiswyr aflwyddiannus y cam DoDd gydag ymadroddion safonol yn ymwneud â’r broblem a’r meini prawf nad oedd wedi’i fodloni. Wedi derbyn y llythyr, roedd cyfle i’r ymgeiswyr holi am adborth bellach. Buasai cyflwyno adborth ar wahân i bawb wedi bod yn feichus dros ben i Grŵp Cyflawni’r GIE. Bu i rai ymgeiswyr gysylltu yn gofyn am adborth pellach. O ganlyniad, roedd yn rhaid i arweinydd Y GIE fwrw golwg arall ar DdoDd yr ymgeisydd a phenderfynu eto pam y cafodd ei wrthod, gan ail-adrodd yn rhannol y broses yr oedd y panel asesu wedi’i gyflawni eisoes. Drwy gydol y broses, bu i dîm Y GIE amlygu’r lefel uchel o ddiddordeb a chystadleuaeth ar gyfer y cyllid fel ffordd o reoli’n rhannol y nifer y Prosiectau a fyddai wedi eu siomi. Fodd bynnag, fe ddywedodd Prosiectau (rhai llwyddiannus ac aflwyddiannus) gan fod disgwyl y lefel uchel hyn o ddiddordeb a gan y caiff hyn ei annog, yna fe ddylai fod adnoddau digonol wedi’u neilltuo i gynnig adborth o safon a gwell gefnogaeth. Gallai hyn godi safon ceisiadau yn y dyfodol a’r rhagdybiaeth ynghylch perthynas yr ariannwr/ymgeisydd.

5.17 Mae’r sylwadau canlynol yn cynnig blas o safbwynt y Prosiect am yr adborth a gyflwynwyd: *“Roedden nhw wedi ymdrin ag ychydig o’r adborth ynghylch meysydd*

[31] Sylwadau gan aelod o’r Is-grŵp Gwerthuso

*i'w gwella mewn adrannau eraill yn yr achos busnes eisoes. Felly roedd yr ymgeiswyr yn teimlo bod pob adran wedi'u darllen / marcio ar wahân, heb wybodaeth neu gyfeiriad at yr adrannau eraill er eglurder"; "Roedd yr adborth yn dynodi diffyg gwybodaeth o'r strategaethau a blaenoriaethau cenedlaethol - ond ni chafodd hyn ei amlygu yn y wybodaeth gyfarwyddyd"*[32] ; a, *"Buasai Adborth ynghylch yr adran gryfaf un, hefyd, wedi bod yn galonogol".* Dylai arianwyr ystyried y broblem ynghylch ansawdd yr adborth am brosesau grantiau ar sail ymchwil gydag elusennau ledled Prydain[33]. Barn y Prosiect am Y GIE oedd bod angen mwy o adnoddau ar gyfer yr agwedd hon. Buasai hyn yn help i bartneriaid Y GIE gynnal perthnasau gwell gyda hen bartneriaid a phartneriaid newydd.

**Llinellau Amser**

5.18 Fe benderfynodd tîm Y GIE addasu eu llinellau amser eu hunain er mwyn caniatáu mwy o amser i'r ymgeiswyr. Roedd y tîm yn dymuno manteisio ar yr hynny a ddysgwyd yn sgil Rhaglenni blaenorol ac i ofalu bod Y GIE yn cynnig digon o amser i'r ymgeiswyr baratoi eu ceisiadau. Cafodd rhai addasiadau eu cyflawni fel ymateb i gwestiynau a gafodd eu gofyn yn y sioeau teithiol, lle'r bu i'r tîm ofalu bod eu cyfarwyddyd yn ogystal â'r meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau yn fwy eglur. Cafodd Y GIE ei lansio wythnos yn hwyrach na'r disgwyl er mwyn mynd i'r afael â'r adborth. Yn gyffredinol, fe ymdrechodd tîm Y GIE i gynorthwyo ymgeiswyr pan fo modd, hyd yn oed os oedd hynny'n golygu eu bod nhw o dan bwysau yn sgil hynny.

5.19 Y broblem fwyaf ynghlwm â'r llinellau amser ar gyfer Prosiectau oedd goblygiadau oedi rhag hysbysu'r Prosiectau o'r penderfyniad terfynol. Roedd hyn y tu hwnt i reolaeth tîm Y GIE. Dywedodd tîm Y GIE hefyd bod oedi rhag cychwyn rhai Prosiectau oherwydd nad oedden nhw wedi cwblhau cytundebau partneriaeth ac roedd hyn yn un o amodau cynnig y grant. Roedd yn rhaid i Chwaraeon Cymru ailffurfio'r gyllideb er mwyn iddyn nhw allu cyfrannu tuag at y pecyn cyllid cyffredinol. Bu cwblhau'r trefniadau hynny gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru olygu oedi gyda'r dyddiad hysbysu o'r dyddiad hysbysu disgwyliedig yn ystod Mawrth 2019 i Fehefin 2019. Bu i'r oedi gyda chyflwyno cyllid olygu sgîl-effeithiau sylweddol ynghyd

[32] Safbwynt un aelod o dîm Y GIE oedd bod hyn ymhlyg yn adran Achos Strategol yr achos busnes

[33] Joe Saxton ac Elin Lindström (nfpSynergy 2012 a 2018) Taking nothing for granted: a research report into what charities think a model grant-maker looks like.

â chanlyniadau anfwriadol o ran cyflawni a pherthnasau gyda chwsmeriaid. Ymysg y rhain oedd y canlynol:

- Ceisiadau i Brosiectau gyflwyno cyllidebau wedi'u hadolygu;
- Oedi o ran gallu'r Prosiectau i recriwtio staff;
- Roedd yn rhaid i weithwyr medrus cyfredol ar gytundebau tymor sefydlog ddod o hyd i waith yn rhywle arall;
- Oedi yn sgil diffyg cyllid i drefnu hyfforddiant a threfnu'r darparwyr gweithgareddau gofynnol cyn cychwyn cynnig gweithgareddau i fuddiolwyr;
- Gweithgareddau wedi'u cynllunio (cynigion yn yr awyr agored, tymhorau tyfu) wedi'u heffeithio yn sgil cychwyn yn yr hydref; ac,
- Ansicrwydd ynghylch oes modd ymestyn Prosiectau yn ystod Blwyddyn 3 neu os bydd Y GIE yn Rhaglen fyrrach.

5.20 Cafodd y broblem hon ei grybwyll gan 14 o'r Prosiectau llwyddiannus fel rhwystr rhag cyflawni eu deilliannau arfaethedig. Yn ogystal â'r problemau gweinyddol cysylltiedig, mae yna oblygiadau anhysbys ynghylch rhai agweddau fel colli mewnbwn unigolion allweddol sy'n meddu ar arbenigedd a pherthnasau blaenorol gyda grwpiau sy'n cydweithio gyda buddiolwyr arfaethedig. Mae yna hefyd drafferthion yn ymwneud â gallu ymysg rhai o'r mudiadau llai ynghlwm (a'u partneriaid cyflawni priodol) i allu cynnig darpariaeth ychwanegol ym Mlwyddyn 2 er mwyn gwneud iawn am yr oedi pe bai angen byrhau'r Rhaglen. Ymysg yr effeithiau eraill bydd gwasgaru dyddiadau dychwelyd y cyflwyniadau monitro data oherwydd gwahanol ddyddiadau cychwyn y Prosiectau gan effeithio ar gasglu canolog ac adrodd ar ganfyddiadau.

5.21 I'r gwrthwyneb, bu i rai ystyried yr oedi yn gadarnhaol gan yr oedd yn caniatáu mwy o amser trafod a gwaith cefndirol cyn cyflawni, gan gynnwys y cam pwysig o ddatblygu perthnasau gyda buddiolwyr arfaethedig. Dengys gwerthusiadau blaenorol bod angen amser ymlaen llaw i sicrhau ymgysylltu llwyddiannus a newid mewn ymddygiad gyda rhai grwpiau targed. Gan ddwyn i ystyriaeth mudiadau llai yn benodol, mae ond modd cyflawni hyn pan fo'r adnoddau ar gael.

5.22 Bu i'r diffyg eglurder a chyfathrebu effeithio ar fudiadau partner y Rhaglen a'u gallu i gyfleu negeseuon eglur i adrannau eraill a oedd yn ymholi ac yn ceisio rheoli perthnasau gyda chwsmeriaid. Mae hyn yn peri peryg i enw da'r mudiadau a phosibilrwydd o sgîl-effeithiau ynghylch canfyddiadau allanol cynlluniau grant eraill gan y partneriaid.

5.23 Bu i'r agwedd hon gysgodi rhywfaint ar agweddau cadarnhaol Y GIE. Bu i gryn dipyn o'r 17 Prosiect llwyddiannus gytuno fod proses Y GIE wedi cymell cydweithio. Bu i bob un o ymatebwyr yr arolwg, oni bai am dri, ddweud eu bod wedi ffurfio partneriaeth newydd gyda mudiad neu unigolyn fel rhan o'r broses ymgeisio am Y GIE - roedd ymgeiswyr aflwyddiannus ymysg yr ymatebwyr hyn hefyd. Dywedodd wyth o'r 17 Prosiect na fyddai modd iddyn nhw gynnal eu gweithgareddau heb y cyllid, tra dywedodd eraill mae'n bosib y byddan nhw wedi llwyddo i gyflawni eu cynlluniau ond byddai wedi bod ar raddfa lai. *"Heb Y GIE, buasai nifer o'n rhaglenni wedi dod i ben ond yn lle hynny bu iddyn nhw ddatblygu ac ehangu".* Dywedodd tri chwarter o'r ymgeiswyr eu bod nhw, gyda diolch i'r GIE, yn gallu ymestyn eu gwaith ar gyfer grŵp targed neu ranbarth newydd, neu gyflawni dulliau a ffyrdd o weithio newydd.

## 6. Dull Cydweithredol

6.1 Cafodd y thema cydweithio ei fynegi'n gyson drwy gydol proses Y GIE. Cafodd ei ystyried yn bwysig ynddo'i hun yn ogystal oherwydd beth ellid ei gyflawni yn sgil cydweithio. Roedd gofyn i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth o gydweithio ar gyfer y broses weinyddu. Roedd hefyd angen datgan trefniadau partneriaeth yng ngham DoDd a Cham 2 y ceisiadau a chyflwyno cytundebau partneriaeth ffurfiol wedi'u llofnodi gan Brosiectau llwyddiannus cyn iddyn nhw dderbyn y cyllid. Fel caiff ei amlygu yn yr adroddiad Theori Newid, aeth y trefniadau hyn ymhell tu hwnt i'r arnodiadau a'r mynegiadau nodweddiadol o ewyllys da a gwaith yn y dyfodol sydd yn aml yn rhan o geisiadau grant. Cafodd dros 150 o bartneriaid eu crybwyll yn y dogfennau cais, ac mae adborth yn sgil cyfweliadau gyda Phrosiectau yn awgrymu bod nifer o'r rhain yn bartneriaid 'newydd', gydag ymgeiswyr arweiniol yn cydweithio gyda mudiadau nad oedden nhw'n ymwybodol ohonyn nhw eisoes.

6.2 Bu i ganlyniadau'r arolwg ategu at hyn, gyda thri chwarter o ymgeiswyr trydydd sector a phob ymgeisydd sector cyhoeddus yn dweud eu bod nhw wedi ffurfio partneriaeth gyda mudiad neu unigolyn newydd iddyn nhw fel rhan o broses ymgeisio am Y GIE. Dywedodd bron i naw o bob deg bod *'cydweithio gyda lleiafswm o ddau fudiad o wahanol sectorau'* yn *'rhwydd iawn'* neu'n *'eithaf rhwydd'* yn ogystal â *'chanfod partneriaid perthnasol gyda'r gallu i fod yn rhan o'r prosiect'.* Roedd hyn ni waeth a oedd ymatebwyr yr arolwg yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus gyda'u cais. Dywedodd hanner o'r ymatebwyr hyn bod y broses yn 'eithaf defnyddiol' yn *'cynnig cyfleoedd i rwydweithio gyda mudiadau eraill a oedd â diddordeb yn Y GIE'.*

6.3 Ar lefel Rhaglen, bu i'r cydweithio rhwng y pedwar mudiad olygu dylunio, arwain, gweithredu'r GIE a'r cyllidebau cronni ar y cyd. Bu i'r broses helpu i bartneriaid ddatblygu perthynas cadarnhaol ynghyd â phennu swyddi a chyfrifoldebau eglur a sicrhau strwythur ar gyfer adrodd a gwneud penderfyniadau. Bu i'r deilliant fynd y tu hwnt i ymarferion gwaith da cyffredinol a phrofiadau blaenorol y rheiny sydd ynghlwm. Dywedodd aelodau Grŵp Cyflawni'r GIE eu bod nhw wedi eu *"siomi ar yr ochr orau'n fwy na'r disgwyl"* gan y cydweithio yn ystod y broses. Soniodd un am yr ymdrech i ofalu ei fod yn *"bartneriaeth wirioneddol. Mae'n amlwg pan fo pob mudiad yn rhoi o'u gorau ar ran y bartneriaeth pan fo nhw'n cyflawni hyd eithaf eu gallu, yn gweithio ar benwythnosau a gyda'r nos… doedd o ddim yn teimlo fel ein bod ni'n dri*

*mudiad ar wahân - mae pob un ohonom ni'n ymroddedig ac yn ceisio sicrhau y bydd yn llwyddo".*


6.4 Ar lefel Prosiect, cafodd y cydweithio rhwng dwy adran Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu ac arwain Y GIE ei ystyried yn gadarnhaol. Cafodd Prosiectau eu calonogi'n arbennig gan y cysylltiad pendant rhwng chwaraeon ac iechyd. Yn wir, fe soniodd sawl un o'r cyfweledigion bod dwyn chwaraeon ac iechyd ynghyd wedi bod yn destun trafod iddyn nhw ers amser maith gan ymdrin â phwysigrwydd y cysylltiad. Fodd bynnag, Y GIE oedd y cyfle cyntaf i ddod â'r ddau faes ynghyd yn rhyngweithiol mewn ffordd a allai gefnogi cyflawni 'ar lawr gwlad'. Bu i Brosiectau drafod eu dyhead i gydweithio'n agosach gydag 'iechyd' ac roedden nhw'n teimlo eu bod â'r gallu i gyfrannu llawer o ran atal. Bu i'r GIE gynnig ffordd arfaethedig tuag at berthynas agosach gydag iechyd a hynny mewn ffordd gadarnhaol hefyd.

6.5 Mae Prosiectau'n cydnabod pwysigrwydd cydweithio a'r buddion arfaethedig yn y tymor hirach. Fodd bynnag, bu iddyn nhw hefyd amlygu'r pwysau yn ystod y broses ymgeisio i annog cydweithio fel rhan o broses grantiau cystadleuol. Roedd ymgeiswyr yn ymgeisio am gyllid cyfyngedig (a bu i dîm Y GIE eu hunain bwysleisio bod y broses yn hynod gystadleuol). Roedd hyn benben â bodlonrwydd ymgeiswyr i rannu eu syniadau, a chymryd risg y caiff eu cynlluniau eu defnyddio gan rywun arall a fyddai felly'n golygu eu bod yn colli cyfle. Gallai neilltuo mwy o amser yn y broses i gefnogi'r trafodaethau hyn wedi bod o fudd - fel y bu i gynrychiolydd Y GIE awgrymu: *"Wrth edrych yn ôl, roedd y broses yn ei chyfanrwydd yn eithaf dwys - a pe bai mwy o amser gennym ni fe fyddai modd inni fynd ati i annog cydweithio".*

6.6 Hefyd bu i Brosiectau awgrymu bod cyfleoedd eraill i fynd ati i gydweithio yn ystod y broses, yn bennaf wrth ddatblygu gofynion monitro a gwerthuso. Roedd un Prosiect o'r farn mae'n bosib y byddai Prosiectau eraill wedi defnyddio'r system y bu iddyn nhw ei roi ar waith yn lleol eisoes pe bai cyfleoedd priodol i fynd rhagddi i wneud hynny.

6.7 Ar y cyfan, bu cydweithio drwy gydol proses Y GIE, yn enwedig ar lefel Rhaglen, yn gadarnhaol. Mae'r diagram isod yn portreadu sut cafodd agweddau cydweithredol eu rhoi ar waith yn ystod y broses hyd yn hyn (Hydref 2019) - sylwch fod cydweithio 'llorweddol' ar bob lefel yn gryfach na'r cydweithio rhwng y lefelau amrywiol.

**Ffigur 6.1: Lefelau Cydweithio: Hydref 2019**




6.8 Bu cydweithio yn amlwg drwy gydol proses Y GIE hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae angen cyfleoedd strwythuredig i'r 17 Prosiect allu cydweithio gan fod y cam ymgeisio wedi'i gyflawni erbyn hyn, ac mae digwyddiadau dysgu dilynol wedi helpu gyda hyn. Buasai Prosiectau yn elwa o gyfleoedd cydweithio pellach o dan arweiniad tîm Y GIE wrth iddyn nhw fynd rhagddi gyda'r cam cyflawni. Hoffai ymgeiswyr aflwyddiannus hefyd fwrw golwg ar wybodaeth am yr 17 Prosiect gan fod y cyllid wedi'i ddosbarthu erbyn hyn[34]. Buasai hyn yn eu hysbysu am y cyfleoedd posib i gysylltu, ac osgoi dyblygu gwaith gan elwa o'r addysg sy'n dod i'r amlwg[35]. At hyn, mae'n bosib byddai bwrw golwg ar gyfleoedd i Brosiectau gydweithio ar agweddau o'u gwerthusiadau'n fuddiol hefyd yn ogystal â rhwng lefelau gwerthuso'r Rhaglen a'r Prosiect.


[34] Mae modd iddyn nhw wneud hynny erbyn hyn – mae'r holl Brosiectau llwyddiannus wedi'u henwi'n gyhoeddus.
[35] Mae tîm Y GIE yn ystyried cynnal digwyddiad tuag at ddiwedd ail flwyddyn y Rhaglen (2020/21) i rannu dysgu o'r Prosiectau gyda chynulleidfa ehangach.

## 7. Pum ffordd o Weithio

7.1 Cafodd y cysylltiad rhwng Y GIE a'r pum ffordd o weithio sydd wedi'i gefnogi gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei drafod yn groyw yn nogfennau a chanllaw'r Rhaglen. Bu i'r Galwad am Geisiadau a'r Canllaw ddatgan: *"Mae'n rhaid i geisiadau ddangos sut bu i'r '5 Ffordd o Weithio' y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol siapio a llywio'r cais".* Caiff hyn ei ail-adrodd yn y templed Achos Busnes ar gyfer Cam 2 lle mae'r Achos Strategol yn cyfeirio'r ymgeiswyr i: *"Egluro sut bydd y Prosiect yn cyfrannu tuag at nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut mae'r pum ffordd o weithio (Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys) wedi'u rhoi ar waith yn nyluniad a chyflawniad y prosiect".*


7.2 Cafodd y Ddeddf a'r ffyrdd o weithio eu gweithredu yn ystod proses Y GIE o'r lansiad hyd at y cam cyflwyno grantiau. Bu i'r cyfweledigion gadarnhau yr oedd yn 'addas yn naturiol' yn hytrach na gofalu bod Y GIE â'r Ddeddf yn cyd-fynd wrth edrych yn ôl, ar lefel Rhaglen ac ymysg yr 17 Prosiect, lle bu i ddwy ran o dair ddatgan eu bod yn cytuno hefyd. Roedd tîm Y GIE yn hyderus y buasai'r dull ar waith yn parhau, er maen nhw'n cydnabod y gallai cynnal y gwaith da wedi lansio'r GIE fod yn heriol.

7.3 Soniodd y Prosiectau eu bod yn credu bod Y GIE yn cyd-fynd yn effeithiol gyda'r Ddeddf. Bu iddyn nhw ddweud bod dangos sut cafodd y ffyrdd o weithio'u gweithredu yn eu gweithgareddau a'u dulliau arfaethedig yn rhwydd. *"Mae'n ceisio rhoi dulliau'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith yn briodol. Mae hyn yn golygu ei fod yn cyd-fynd yn effeithiol gydag ein gweithdrefnau ni".* Dywedodd nifer o'r cyfweledigion bod mudiadau yn dod yn fwyfwy cyfarwydd gydag iaith y Ddeddf. Mae'n bosib eu bod nhw eisoes yn cydymffurfio gyda nifer o'r ffyrdd o weithio hyn, ond mae'r Ddeddf yn cynnig cyfarwyddyd cyson ar sut i ddisgrifio a gwerthuso eu gwaith. Mae Ffigur 7.1, yn seiliedig ar 21 o ymatebwyr, yn dangos sut mae disgwyl y bydd Y GIE yn cyfrannu tuag at nodau cyffredinol y Ddeddf.




7.4 Roedd ymatebwyr ein harolwg yn cytuno bod Y GIE yn debygol o gyfrannu tuag at y nod 'Cymru Iachach' – roedd dros dwy ran o dair yn credu y byddai'n cyfrannu 'i raddau helaeth' a'r rheiny oedd yn weddill yn credu y byddai'n cyfrannu 'i raddau'. Mae'r ymatebwyr hefyd yn cytuno'n gryf y byddai'r GIE yn cyfrannu tuag at 'Cymru o gymunedau cydlunus', 'Cymru gydnerth' a 'Cymru sy'n fwy cyfartal'. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y buasai'r GIE yn gallu cyfrannu rhywfaint at bob un o'r nodau, fodd bynnag roedd cysylltiadau tuag at y nodau 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' a 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn llai amlwg.

7.5 Yn yr arolwg ar-lein, roedd gofyn i'r ymgeiswyr asesu i ba raddau'r oedden nhw'n credu bod Y GIE a'r broses ymgeisio yn gofalu bod modd gweithredu pum ffordd o weithio'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Ffigur 7.2 isod yn dangos y rhagdybiaethau hyn.




**Ffigurau 7.2: I ba raddau mae'r ymgeiswyr yn teimlo bod dyluniad Y GIE a'r broses ymgeisio yn gofalu bod modd gweithredu pum ffordd o weithio y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

7.6 Mae agweddau penodol y ffyrdd o weithio yn Y GIE yn llawer mwy amlwg yn ystod y cam hwn o'r Rhaglen. Mae cydweithio'n flaenllaw ynghyd â natur hirdymor y gwaith (fodd bynnag mae hyn ond yn hirdymor o gymharu gyda ffynonellau cyllid blaenorol). Gallai agweddau eraill ddod yn fwyfwy amlwg wrth i'r Rhaglen ddatblygu. Mae'n bosib y bydd rôl Y GIE yn atal yn dod i'r amlwg trwy rai o'r gwerthusiadau Prosiect a gynlluniwyd. Roedd rhai wedi sylwi ar ddichonolrwydd y gronfa: *"Faint o sylw gaiff trafod opsiynau cynaladwyedd wrth i'r rhaglen ddatblygu ac ystyr hynny ni'n? Sut mae'n effeithio ar gyllidebau eraill fel llai o angen am iechyd gofal?".* Doedd y ffyrdd gweithio yn ymwneud â chynnwys ac integreiddio ddim yn amlwg yn ymatebion y cyfweledigion oni bai gan ymatebwyr ar ran Prosiectau sy'n cysylltu mudiadau llai 'ar lawr gwlad' a'r rheiny sy'n cynllunio gweithgareddau ar y cyd gyda buddiolwyr a grwpiau lleol arfaethedig.

7.7 Bu i'r gofyniad i ystyried ffyrdd o weithio *"feithrin newid mewn ffordd o feddwl ac agwedd"* ac mae'n bosib y bydd hyn yn arwain at ddeilliannau cynaladwyedd mwy effeithiol. Caiff cynaladwyedd Prosiectau ei ystyried yn nhermau ariannol yn nogfennau'r Rhaglen. Bu i'r Galwad am Geisiadau a Chanllaw sôn y dylai'r ymgeiswyr *"fod yn ymwybodol y bydd Y GIE yn cynnig cyllid grant am 3 blynedd ariannol a chaiff ei leihau'n raddol yn y flwyddyn olaf". "Dim ond Prosiectau sy'n dangos y gellid eu hariannu yn ystod y drydedd flynedd neu y tu hwnt i hynny neu a fydd yn gadael cymynrodd a fydd yn cynnal gweithgareddau'r Prosiect y tu hwnt i'r cyfnod o dair blynedd gaiff eu hystyried".* Nod lleihau'r cyllid yn raddol yn y flwyddyn

olaf oedd annog ystyried llwybrau allan a chloi'r Prosiect yn fuan, ynghyd â chynnig gweithgareddau parhaus.

7.8 Bu i Swyddfa Archwilio Cymru ddwyn i ystyriaeth perthynas Y GIE gyda'r Ddeddf yn eithaf manwl fel rhan o'u asesiad ar weithredu'r Ddeddf[36]. O ran y dull 'hirdymor', roedden nhw o'r farn er fod cynlluniau i fonitro effaith tymor byr, roedd bylchau o ran gwerthuso'r effaith hirdymor, ac i asesu cynaladwyedd hirdymor Prosiectau. Roedden nhw o'r farn hefyd na chafodd natur raddadwy dichonol y Prosiect ei ystyried ar y cychwyn. Bu i Adroddiad SAC hefyd sôn am gyfle i gofnodi'r effaith ar amcanion llesiant partneriaid y Rhaglen, ac asesu arwyddocâd cydweithio mwy gyda'r gymuned ar lefel Prosiect.

7.9 Mae'r elfen 'hirdymor' wir wrth wraidd dyluniad Rhaglen Y GIE. Mae'n anodd ystyried agweddau hirdymor cronfa tair blynedd o hyd gan ei fod yn gyfnod rhy fyr i ragweld unrhyw effeithiau tymor hirach. Bu i arweinwyr cronfa'r GIE geisio dwyn hyn i ystyriaeth wrth ddylunio'r rhaglen, drwy gyflwyno gofynion pellach i Brosiectau gynnig adborth y tu hwnt i'r garreg filltir tair blynedd. Bydd adroddiad cynaladwyedd yn ymdrin â chyfnod o bum mlynedd yn pennu ydy Prosiect wedi dod i ben neu wedi parhau a datblygu, ac os felly pam a sut. Roedd yn rhaid i'r rheiny a lwyddodd i gyrraedd Cam 2 sôn pa mor raddadwy gall eu cynnig fod gyda buddsoddiad pellach a pha (os unrhyw) ddarbodion maint y gellid eu cyflawni. Fodd bynnag roedd aelodau tîm Y GIE yn amau pa mor realistig oedd rhai o'r cynigion cynaladwyedd. Dywedodd un Swyddog Achos bod y Ddeddf yn ffordd newydd o weithio ar ran elusennau ynghlwm â'r Prosiect ac roedd yn teimlo y gallai fod yn *"nodwedd ddiwylliannol i elusennau ar hyn o bryd, lle maen nhw'n dod o hyd i gyllid a cheisio amdano - bosib yn hytrach na gweithredu modelau lle mae cymunedau'n dod yn hunangynhaliol".* Bu i hyn yn ei dro arwain at gwestiynu pwy oedd yn gyfrifol am gefnogi newid o'r fath i fudiadau drwy'r GIE. Soniodd un Prosiect am y sefyllfa mewn gwirionedd: *"Bydd angen cyllid pellach arnom ni ar ddiwedd y rhaglen. Tra bod hyn (Y GIE) yn gam sylweddol ymlaen, ac mae'r elfen cynaladwyedd ar waith, nid ydym yn rhagweld y gallai ein gwaith barhau heb i rywun dalu amdano. Os gallwn ni annog y sector iechyd i gefnogi rhai agweddau o'r gwaith yn dilyn y prosiect, gallai hynny fod yn un ffordd ymlaen".*

---

[36] Gwelwch: 'Gweithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Llywodraeth Cymru Tachwedd 2019. Cyfeirnod y Ddogfen 1536A2019-20. Gwelwch Atodiad 4 tud 47-51.

7.10 Tra bu i nifer o'r Prosiectau gyfeirio at 'chwilio am ffynonellau cyllid' fel gweithred cynaliadwy, bu i bobl ystyried 'mathau' eraill o gynaladwyedd yn flaenllaw hefyd, fel cynaladwyedd unrhyw newidiadau canlyniadol mewn ymddygiadau ymysg buddiolwyr y Prosiectau. Buasai buddiolwyr Prosiectau yn golygu'r rheiny sy'n cymryd rhan a'r gweithlu sy'n ymwneud gyda nhw fel soniodd Swyddog Achos arall: *"Mae'r gwahaniaeth yma'n fwy amlwg rhwng cynnal cydweithio gydag unigolion sy'n cymryd rhan ar raddfa ar ôl Prosiect Y GIE a allai fod yn heriol. Mae'n bosib bod yna elfen fwy addawol sef datblygu criw o bobl cymwys a allai gynnal y dull gweithredu".*

7.11 Mae angen ystyried pa 'fath' o gynaladwyedd sy'n ddisgwyliedig ymhellach ynghyd â'r goblygiadau ynghlwm i'r Rhaglen, Prosiectau, gweithlu a buddiolwyr. Mae pwyslais Y GIE ar ffyrdd o weithio a chynaladwyedd yn golygu ei fod yn wahanol i nifer o Raglenni grant blaenorol: *"Yn sylfaenol, mae'n ceisio gweithredu ffordd newydd o weithio yn ystod y broses grantiau ac ynghlwm â deilliannau'r Prosiectau eu hunain… mae'n ymwneud â gweithredu rŵan i ofalu bod effaith hirdymor ar fywydau pobl".* Mae'r cwestiwn ynghylch union ystyr, neu ystyr posib 'cynaladwyedd' yn gwestiwn y byddwn yn dychwelyd ato faes o law.

## 8. Canfyddiadau a Goblygiadau

8.1 Mae'r Adran derfynol hon wedi'i rhannu'n ddwy ran sylweddol. Mae'r rhan gyntaf yn ymdrin â phob un o'r pum prif gwestiwn 'proses' gan Lywodraeth Cymru ac yn crynhoi ein canfyddiadau a chasgliadau ynghylch pob un. Dyma nhw:

**Dyluniad Y GIE a Phrosiectau Addas:** Pa mor effeithiol oedd dyluniad a chyflawniad Y GIE er mwyn gallu adnabod Prosiectau addas, a'u cefnogi i gyflawni amcanion cyffredinol Y GIE?

**Siapio'r Prosiectau:** Sut bu i'r GIE siapio dyluniad a chyflawniad Prosiectau – eu cwmpas, cydweithrediadau, gallu, monitro a gwerthuso, risgiau, a chynaladwyedd?

**Safbwyntiau'r Prosiectau:** Beth ydy safbwyntiau cynrychiolwyr y Prosiect ynghylch Y GIE a'r ffordd y bu iddi siapio'u prosiectau nhw?

**Cydweithio ar Y GIE:** Pa mor effeithiol oedd dull ar y cyd Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru i ddylunio a chyflawni'r GIE a beth oedd y rhwystrau a hwyluswyr ar gyfer cydweithio?

**Y GIE a 'Ffyrdd o Weithio':** Pa mor dda cafodd y 'pum ffordd o weithio' eu gweithredu wrth ddylunio a chyflawni'r GIE ar lefel Rhaglen a Phrosiect?

8.2 Mae ail ran yr Adran hon yn ymdrin â goblygiadau sylweddol ychwanegol ein canfyddiadau, gan gynnwys y meysydd canlynol:

- Beirniadaeth gyffredinol ynghylch proses Y GIE a'i ddull gweithredu o ran problemau'n ymwneud ag atebolrwydd, arweinyddiaeth, llywodraethu, partneriaeth, systemau/gweithdrefnau, adnoddau, gallu ac ati;
- Gwersi ac effeithiau proses Y GIE, gan gynnwys y beichiau a buddion ynghlwm â phrosesau rhaglenni grant effeithiol;
- Problemau ynghlwm â'r broses a theori newid; a
- Monitro a gwerthuso.

8.3 Rydym yn cau pen y mwdwl ar yr Adran hon, a'r adroddiad, drwy ymdrin â goblygiadau arfaethedig y gwerthusiad proses hwn ar gyfer gweddill gwerthusiad Y GIE, a hefyd ar gyfer dulliau ehangach Llywodraeth Cymru yn ymwneud â datblygu polisïau a dylunio rhaglenni.

**Canfyddiadau**

8.4 **Dyluniad Y GIE a Phrosiectau Addas:** Bu dyluniad a chyflawniad Y GIE yn fodd iddo adnabod ystod eang o Brosiectau addas sydd wedi'u hyrwyddo'n eang ledled Cymru a ledled yr ardaloedd targed wedi'u hadnabod yng nghanllaw cychwynnol y Rhaglen a'r meini prawf ar gyfer ariannu. Bydd yr 17 Prosiect yn cynnig gweithgareddau sy'n arbennig ar gyfer buddiolwyr o oedran cynnar tuag at bobl hŷn a gyda phwyslais cymharol gydradd ynghylch y mathau o fuddiolwyr dymunol. Yn gyffredinol, mae prosiectau'n mynd i'r afael â mwy nag un demograffig ac maen nhw'n llwyddo i hyrwyddo'u prosiectau'n eang. Mae dros hanner yn targedu plant a phobl ifanc, oedolion hŷn a'r rheiny sy'n wynebu tlodi neu sy'n ddifreintiedig, tra bod traean yn canolbwyntio ar bobl gydag anableddau neu salwch hirdymor.

8.5 Mae cyfran mwy o'r grant wedi'i neilltuo ar gyfer cefnogi Prosiectau oedd yn bwriadu ymwneud â gweithgareddau corfforol yn bennaf o'r cychwyn cyntaf, ac ychydig o dan draean o Brosiectau oedd yn bwriadu cynnal gweithgareddau chwaraeon. Fodd bynnag, mae Prosiectau'n gweld yr angen i gydweithio a chyd-ddylunio gyda grwpiau a thrigolion lleol. O ganlyniad, mae'n debyg caiff y mathau o weithgareddau eu datblygu a'u siapio yn unol â'r angen yn lleol yn ystod cyfnod gweithredu'r Rhaglen.

8.6 Bu'r Rhaglen yn barod i gymryd risgiau, rhoi cynnig ar ddulliau newydd ac ariannu partneriaid newydd a chanolbwyntio ar ddysgu gan ymdrin â'r natur raddadwy yn y dyfodol ar gyfer deilliannau llwyddiannus. Ar y cyfan, roedd y cyfweledigion yn frwdfrydig ynghylch dichonolrwydd y Prosiectau buddugol, ac yn dilyn ein hasesiad ni, fe welwn pam eu bod yn frwdfrydig. Llwyddodd y rhaglen i ddenu ystod mor eang o Brosiectau ynghyd â Phrosiectau o safon yn bennaf yn sgil 'marchnata' trylwyr Y GIE ynghyd â pharodrwydd Bwrdd y Prosiect i annog a chroesawu partneriaid newydd a Phrosiectau o fath newydd. Bu i'r broses dylunio ymwybodol helpu i hyrwyddo'r GIE ymysg y cymunedau sector cyhoeddus a thrydydd sector yng Nghymru a thywys ymgeiswyr arfaethedig ar hyd y llwybrau bwriadedig.

8.7 **Siapio'r Prosiectau:** Aeth Y GIE ati i siapio'r Prosiectau gydag arweiniad penodol ynghylch prif nodweddion y deilliannau bwriadedig, pwysigrwydd partneriaeth lefel-Prosiect, defnydd o gam DoDd i ddewis a dethol prosiectau a phwyslais ar ddatblygu achos busnes llawn. Roedd nodau eang a chyffredinol Y GIE yn cynnig cwmpas sylweddol i Brosiectau allu siapio cynigion a oedd yn diwallu anghenion lleol a chyfrannu tuag at y nodau cenedlaethol. Bu i'r GIE osod paramedrau yn ymwneud â'r

grwpiau targed o ran ddemograffig ond heb fod yn rhwystrol. Ni chafodd y gweithgareddau er mwyn cyflawni'r prosiect eu cyfyngu, felly roedd modd i ystod eang o fudiadau fanteisio ar Y GIE.

8.8 Roedd y meini prawf o ran ariannu ac asesu ynghyd â'r broses achos busnes yn annog Prosiectau i fabwysiadau a gweithredu'r pum ffordd o weithio a nodau'r Ddeddf. Roedd cydweithio rhwng gwahanol sectorau yn ofyniad a bu i'r cyfleoedd rhwydweithio, gweithdai a chyflwyniadau ategol yn y broses ategu at y deilliant hwn. Mae sawl Prosiect wedi datblygu partneriaethau newydd yn sgil y broses. Mae tîm Y GIE hefyd yn ymwybodol o bartneriaethau newydd sydd wedi'u sefydlu yn sgil Y GIE a thu hwnt i'r 17 Prosiect sydd wedi'u hariannu. Fe gafodd y canfyddiad hwn ei ategu gan ganfyddiadau'r arolwg. Fodd bynnag, roedd y pwyslais i Brosiectau gydweithio fel rhan o broses grantiau yn groes i'r sefyllfa wirioneddol o geisio cystadlu yn erbyn eraill am adnoddau cyfyngedig. Bu'r pwysau ar y Prosiectau'n ffynhonnell dysgu da yng nghyd-destun cefnogi cydweithio ystyrlon, ond gydag awydd i fanteisio ar fuddion proses grantiau cystadleuol.

8.9 Bu i broses Y GIE hefyd siapio Prosiectau drwy orfodi'r disgyblaethau gofynnol i gynhyrchu modelau rhesymeg a chynlluniau monitro a gwerthuso. Bu'r rhain yn help i'r Prosiectau egluro'n union beth oedden nhw'n bwriadu ei gyflawni, sut oedden nhw am fynd ati i wneud hyn a sut buasen nhw'n gwybod eu bod nhw wedi llwyddo gyda'u nod maes o law. Fodd bynnag fe godwyd y cwestiwn a fyddai beichiau cysylltiedig â chynhyrchu'r deunyddiau ymgeisio gofynnol yn gymesur â'r budd, yn enwedig gan ddwyn i ystyriaeth mai dim ond hanner o'r rheiny oedd yn derbyn gwahoddiad i gyflwyno cais llawn fyddai'n debygol o dderbyn cyllid oherwydd graddfa'r adnoddau sydd ar gael.

8.10 **Safbwyntiau'r Prosiectau:** Bu i'r Prosiectau glodfori'r GIE a'i hegwyddorion, ac maen nhw'n gwerthfawrogi'r cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafodd gwaith marchnata a chyfathrebu'r GIE ei ganmol ar y cyfan, ynghyd â'r cyfarwyddyd a chefnogaeth drwy gydol y broses. Cafodd y cam DoDd ei ystyried yn rhwydd ac eglur, ond bu teimladau cymysg am Gam 2 o ran gallu'r ymgeiswyr i ymdopi gyda gofynion y broses a'r dyddiadau cau. Cafodd y gofynion eu hystyried yn feichus, hyd yn oed pan fo'r mudiad yn meddu ar brofiad helaeth yn paratoi ceisiadau grant. Roedd y gwaith paratoi Achos Busnes yn heriol ac roedd unigolion y Prosiectau y bu inni eu cyfweld o'r farn bod yr wybodaeth am yr adnoddau monitro penodol yn achosi pwysau ychwanegol. Roedden nhw'n

ymwybodol ers cychwyn y broses y byddan nhw'n gyfrifol am werthuso ar lefel prosiect. Roedd hyn yn ddefnyddiol ond ni chawson nhw gyfarwyddyd penodol tan nes ymlaen ac roedd hyn yn fwy heriol. Er gwaethaf hyn, bu i'r Prosiectau llwyddiannus gydnabod bod y broses Achos Busnes wedi eu helpu i gychwyn arni i gyflawni'r Prosiectau'n fwy effeithiol.

8.11 Wedi rhoi o'u hamser ac ymdrechu i gyflawni proses drwyadl, nid oedd yr ymgeiswyr aflwyddiannus yn credu bod ansawdd yr adborth yn ddigonol. Dyma agwedd sydd wedi'i adnabod mewn gwerthusiadau proses blaenorol ar gyfer gwahanol Raglenni ariannu[37]. At hyn bu oedi gyda penderfyniadau ariannu effeithio'n negyddol ar staffio, cyflawni a pherthnasau gyda chwsmeriaid.

8.12 Er gwaethaf y trafferthion hyn, safbwynt cyffredinol y Prosiectau oedd eu bod wedi elwa o drwyadledd proses Y GIE. Bu iddyn nhw hyrwyddo mudiadau eraill, meithrin cysylltiadau newydd ac fe gawson nhw eu hannog i rannu gwybodaeth a sgiliau. Bu'r cyllid yn help iddyn nhw ddatblygu a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio ynghyd â chynnig cyfleoedd a gwasanaethau i gynulleidfa ehangach.

8.13 **Cydweithio ar ran Y GIE**: Bu i brif weithredwyr ystyried y dull ar y cyd rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a dwy Adran Llywodraeth Cymru i ddylunio a chyflawni'r GIE yn thema sylweddol. Cafodd ei fynegi, ac mae wedi'i atgyfnerthu drwy strwythur llywodraethu cydweithredol a diwylliant o gydraddoldeb yn y bartneriaeth. Yn gyffredinol, bu nifer sylweddol, os nad amrywiol, o'r partneriaid yn barod i gymryd rhan yn y rhaglen a buddsoddi cryn ymdrech. Dywedodd y cyfweledigion lefel Rhaglen ei bod yn broses ddwys o ran adnoddau ond roedd buddion amlwg ynghlwm â hi. Roedden nhw'n awyddus i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio ac roedden nhw o'r farn bod y cyfle i wneud hynny'n gyffrous ac yn adfywiol. Bu iddyn nhw werthfawrogi'r ffordd caiff y cyllidebau eu rhannu rhwng y partneriaid yn enwedig, a'r broses meddwl ar y cyd ynghylch dyluniad y Rhaglen. Roedd y cydweithio'n rhannol wrth gefn o ran ei fod yn fodd i'r Llywodraeth gyfuno dau ymroddiad sy'n gorgyffwrdd gan y weinyddiaeth newydd yn dilyn etholiad 2016. Gan wneud hynny, roedd yn lleihau'r risg o ddyblygu ymdrechion i wella gweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl ac roedd modd cronni adnoddau.

[37] UKRCS: Gwerthusiad Proses Calls for Action a Joe Saxton ac Elin Lindström (nfpSynergy 2012 and 2018) Taking nothing for granted: a research report into what charities think a model grant-maker looks like.

8.14 Mewn rhai ffyrdd, bu i'r GIE ddangos gradd anarferol os nad unigryw[38] o gydweithredu o fewn y Llywodraeth yng Nghymru, yn enwedig yn ymwneud â'r agwedd o gyllidebau wedi'u rhannu. Nid yw'n syndod felly nad oedd yn berffaith. Roedd prif weithredwyr yn meddu ar wahanol safbwyntiau o ran y ffordd orau o gyflawni newidiadau a gwelliannau er mwyn cynyddu lefel o weithgarwch corfforol y boblogaeth ac a fyddai Rhaglen grant modd ymateb fel Y GIE yn debygol o fod yn adnodd effeithiol i brofi ac ymchwilio dulliau. Roedd disgwyliadau'r prif weithredwyr hefyd yn amrywio o ran yr amser angenrheidiol i gynllunio a siapio Rhaglen o'r fath. Bu iddyn nhw wynebu cyfyngiadau o ran y graddfeydd amser i dderbyn cadarnhad ynghylch penderfyniadau allweddol, ac o ran gofalu bod staff yn rhydd i reoli'r gwaith ar ei anterth yn ystod proses a oedd yn ddwys o ran adnoddau ar adegau, yn enwedig wrth asesu ceisiadau a dewis yr ymgeiswyr llwyddiannus.

8.15 **Y GIE a'r 'Pum Ffordd o Weithio':** Bu'r 'pum ffordd o weithio' yn hynod eglur o ran dylunio a chyflawni'r GIE ar lefel Rhaglen a Phrosiect. Mae'r GIE yn enghraifft dda o ymwneud ag egwyddorion y Ddeddf yn ystod proses grant. Soniodd rhai o'r prif weithredwyr eu bod yn help i greu cyd-destun yn Llywodraeth Cymru lle, er enghraifft, gallai cydweithio ffynnu'n haws. Mae perthynas Y GIE â'r ffyrdd o weithio'n amrywio. Mae tystiolaeth gref o gydweithio ac ychydig o integreiddio (er enghraifft yn ymwneud â rhannu cyllidebau), a chaiff yr amcan 'atal' ei gysylltu'n agos gyda rhesymeg gynhenid Y GIE a Phrosiectau i geisio addasu ymddygiadau i ffafrio gwell iechyd corfforol a meddyliol. Caiff proses ariannu tair blynedd o hyd ei ystyried gan lawer yn rhy fyr i gyflawni effeithiau roedd y Prosiectau'n dymuno eu cyflawni i'w buddiolwyr ac o ran ymarferion gwaith. Mae hyn yn rhoi gwerth ar fanteisio ar addysg o'r Prosiectau ar gyfer polisïau a rhaglenni prif ffrwd. Er gwaethaf y pwyslais ar gynaladwyedd yn y deunyddiau ymgeisio a'r canllaw, nid yw'n amlwg sut caiff trosiad o'r fath ei gyflawni.

8.16 Gan ddwyn i ystyriaeth 'cynnwys', bu'r ffordd yma o weithio'n fwy amlwg ar lefel Prosiect na'r lefel Rhaglen. Roedd gofyn i Brosiectau gyflwyno tystiolaeth eu bod nhw wedi ymwneud gyda thrigolion eu cymuned[39]. O safbwynt y Prosiectau, doedd yr un pwyslais ddim yn amlwg ar lefel Rhaglen o ran cydweithio gydag ymgeiswyr arfaethedig ar faterion fel llinellau amser a gofynion monitro a gwerthuso.


[38] Bu nifer o'r prif weithredwyr ynghlwm â dylunio a datblygu'r GIE o'r un farn, ond bu inni ei driongli drwy gyfweliadau penodol gydag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, ac rydym yn fodlon bod barn y gweithredwyr Y GIE yn gywir ar y cyfan.
[39] Galwad am Geisiadau y Gronfa Iach ac Egnïol a Chanllaw'r Gronfa Hydref 2018

**Goblygiadau**

8.17 Bu i'r pum cwestiwn yng nghyfarwyddyd y Gwerthusiad Proses ein llywio i ymwneud â meysydd allweddol o dystiolaeth o ran gwerthuso proses Y GIE, a chyflwyno'r canlyniadau, fel yr uchod. Fodd bynnag, bu i ein dadansoddiad hefyd amlygu goblygiadau ehangach proses Y GIE yn ymwneud â rhai themâu allweddol. Dylai proses effeithiol ar gyfer rhaglen grant gynnig amodau sy'n caniatáu modd i gyflawni'r deilliannau canolradd angenrheidiol hanfodol a fydd, yn eu tro, yn hwyluso deilliannau tymor hirach cyffredinol y mae'r rhaglen yn dymuno eu cyflawni. Bu inni gyfuno model rhesymeg syml i bob pwrpas gyda model ar gyfer rhagoriaeth busnes[40]. Bu inni fanteisio ar y model i gyflawni adolygiad ar y dogfennau a chynnwys y cyfweliadau. Mae'n help i adnabod agweddau'r proses Y GIE a allai fod yn berthnasol i raglenni grantiau eraill.

[40] Y model EFQM – gwelwch https://www.efqm.org/ Rydym yn defnyddio model 'traddodiadol' yma yn hytrach na'r model EFQM newydd.

**Ffigur 8.1: Model Gwerthusiad Proses Y GIE**



8.18 Dyma ein canfyddiadau yn ymwneud â phob un o'r 6 amod galluogi allweddol:

a) **Atebolrwydd:** Bu i'r GIE weithredu'n unol â phrosesau a gweithdrefnau sefydledig Llywodraeth Cymru ac roedd tystiolaeth amlwg o atebolrwydd sylfaenol ar hyd yr hierarchaethau Adrannol a sefydliadol unigol ac yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau gan y Gweinidogion. Roedd yr atebolrwydd hwn yn amlwg ac roedd yn fodd i'r GIE weithredu sawl ymrwymiad Maniffesto a mynd i'r afael â phryderon Gweinidogol. Roedd hefyd teimlad o 'atebolrwydd' ar ran y 'cymuned' o ymgeiswyr. Doedd yr atebolrwydd hwn ddim mor uniongyrchol ond roedd yr un mor bwysig ac roedd tîm Y GIE yn ystyried hyn yn ogystal.

b) **Arweinyddiaeth a Llywodraethu:** Bu i'r GIE osod trefniadau gymharol safonol o ran arweinyddiaeth a llywodraethu gydag Uwch Swyddogion Cyfrifol ar y Cyd, Bwrdd Prosiect cyfunol ac is-grwpiau dynodedig. Roedd y rhain yn effeithiol a bu iddyn nhw gydweithio i ddatblygu Rhaglen ar y cyd ar gyflymder penderfynol. Bu iddyn nhw hefyd gynnig modd i fynd i'r afael â safbwyntiau cychwynnol amrywiol rhwng prif weithredwyr a'u datrys o ran y ffordd orau o gyflawni gwelliannau i iechyd corfforol a meddyliol grwpiau targed allweddol. Bu i'r Uwch Swyddog Cyfrifol a'r Rheolwr Prosiect gydweithio'n dda yn ystod cyfnod cynllunio'r Rhaglen a'r cyfnod gweithredu ar y cychwyn. Mae'r GIE wedi cyrraedd cam newydd erbyn hyn. Bydd modd datblygu blaen-agenda newydd a bydd modd addasu trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth Y GIE os yn briodol. Gallai Bwrdd y Prosiect ystyried penodi Cyfarwyddwr Rhaglen Y GIE (fel rôl yn hytrach na swydd sylweddol). Gallai hyn gynnig pwynt cyfeirio mwy amlwg a chyfrifoldeb parhaus mwy amlwg i unigolyn dynodedig i lywio'r Rhaglen a manteisio ar a throsglwyddo dysgu sy'n dod i'r amlwg.

c) **Strategaeth, Proses a Chynnyrch:** Bu i'r prif weithredwyr fynd ati i ddatblygu proses Y GIE mewn ffordd ymwybodol a meddylgar gan geisio'n benodol i siapio'r Rhaglen fel ei bod yn gweithredu mor effeithiol â phosib i gyflawni'r prif ddyheadau. Dengys tystiolaeth y dogfennau a'r cyfweliadau ynghyd â'r deilliannau o ran ansawdd y Prosiectau wedi'u dewis ar gyfer cyllid, bod hyn wedi'i gyflawni i safon dda. Roedd yna lwyddiannau penodol yn ymwneud â strategaeth a chynnyrch o ran cyfuno'r ddau ymrwymiad maniffesto a rhannu cyllidebau Adrannol a Chyrff Hyd Braich yn gyfan gwbl.

ch) **Adnoddau a Chefnogaeth:** Mae'r gwaith datblygu a gweithredu'r Rhaglen yn feichus ac yn 'anghyson' o ran adnoddau i staff a doedd Y GIE ddim yn eithriad. Roedd Y GIE

yn ffodus gan fod modd iddi fanteisio'n helaeth ar uwch swyddog o Adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru oedd ar secondiad yn Chwaraeon Cymru. Bu iddo gyfrannu safbwyntiau unigryw a phrofiadol dros ben ac roedd modd iddo gyflawni gwaith pontio pwysig. Ar ben hynny, bu i bob un o'r pedwar partner gynnig staff i roi o'u hamser ac ymdrechu ar ran y rhaglen a bu iddyn nhw gydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Mae'n bosib y bydd cyllideb rhaglen gyda 'haen uchaf' i ofalu bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i fodloni'r lefelau uchel o waith sy'n anochel, yn enwedig yn absenoldeb yr amgylchiadau ffodus y gwnaeth Y GIE elwa ohonyn nhw. Fodd bynnag, nid ydym yn tanbrisio'r gost gyfatebol o gynnig adnoddau staff ychwanegol yn y tymor byr.

d) **Canllaw ac Asesiad**: Mae ein hadolygiad o'r dogfennau a'r cyfweliadau yn awgrymu y bu'r canllaw ar y cyfan yn berthnasol, yn gadarn ac yn amserol ac roedd y meini prawf o ran asesu yn briodol ac wedi'i weithredu'n deg. Rydym yn dal yn ansicr ynghylch a oedden nhw ychydig yn rhy feichus ai pheidio ac rydym yn mynd i'r afael â hyn ymhellach isod.

dd) **Monitro a Gwerthuso:** Roedd hyn (ac mae'n parhau i fod) yn faes trafferthus, ac rydym yn ymdrin ag o'n fwy manwl isod.

**Gwersi ac Effeithiau**

8.19 Mae'n bosib mai effaith mwyaf amlwg Y GIE ydy, heb gyllid Y GIE, dywedodd sawl Prosiect y buasen nhw wedi parhau gyda'u gwaith ar raddfa lai a heb gydweithio gydag eraill. Ni fuasen nhw wedi gallu cyfrannu tuag at y cynlluniau prawf a'r gwaith arbrofol, yr ydym yn gobeithio y dylid ei ddatblygu yn y dyfodol o fewn prif ffrwd y ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Buasai rhai wedi mynd ati i ddod o hyd i gyfleoedd cyllid gan ffynonellau eraill i gyflawni eu cynlluniau ond hynny un ai yn unigol neu ar y cyd â dim ond ychydig o bartneriaid blaenorol. Yn lle hynny, bu i'r Prosiectau elwa o bartneriaid newydd drwy'r broses ymgeisio, ac maen nhw'n gweld y budd ynghlwm â rhannu gwahanol feysydd arbenigedd. Mae'n rhy gynnar i ragweld y deilliannau terfynol. Mae gofyn inni fod yn amyneddgar a meddu ar sgiliau penodol i ofalu bod y gwaith ar y cyd â phartneriaid yn llwyddiannus, ynghyd â dealltwriaeth o werthoedd priodol cyn gallu trosi hyn yn ganlyniadau cadarnhaol. Fodd bynnag, mae rhai o'r cyn-amodau llwyddiant wedi'u rhoi ar waith.

8.20 Drwy gydol proses Y GIE, bu i dîm Y GIE sôn am lwyddiant y rhaglen a sut gellir ei addasu yn sgil awgrymiadau 'mewnol' ac adborth gan ymgeiswyr arfaethedig. Bu inni

dderbyn nifer o awgrymiadau ar sut i wella'r broses weinyddol fanwl o'r dystiolaeth y bu inni ei chasglu. Dyma'r awgrymiadau hynny:

- Gwelliannau ymarferol, fel gwell ddefnydd o adrodd craff yn y ffurflenni cais, yn enwedig yn ystod y cam DoDd, i osgoi ceisiadau ar ran Prosiectau rhannol anghymwys sy'n siomi ymgeiswyr ac yn defnyddio adnoddau staff gwerthfawr (yn fewnol ac yn allanol);
- Cynllunio graddfeydd amser realistig ar gyfer y broses gyfan, gan ddwyn i ystyriaeth y gofynion amser ar gyfer cymeradwyo penderfyniadau ar lefel uwch i wahanol fudiadau;
- Trafod a chadarnhau dyrannu cyllidebau o'r cychwyn cyntaf er mwyn osgoi effaith domino negyddol ar adnoddau ar lefel prosiect lleol;
- Adnoddau priodol ar gyfer y staff sy'n dylunio ac yn gweinyddu grant newydd. Doedd yna ddim adnoddau ychwanegol wedi'u neilltuo i gefnogi tîm Y GIE fel rhan o'r brif Raglen ac roedd yn rhaid i'r staff gyflawni'r gwaith yn ychwanegol i'w rhaglenni gwaith blaenorol.[41] ; a
- Ystyried sut bydd y ffyrdd newydd o weithio, sydd wedi'u mabwysiadu'n effeithiol hyd yn hyn, yn parhau i fod ar waith yn ystod blynyddoedd 2 i 3, drwy gefnogi swyddogion achos a chynnig cyfleoedd cydweithio pellach i ddod â'r 17 Prosiect ynghyd.

8.21 Un prif wers gyffredinol ydy pwysigrwydd sicrhau'r cydbwysedd orau a chymesur rhwng gofynion proses Y GIE i ymgeiswyr a'r buddion ynghlwm o ran deilliannau gwell a thebygol i'r Prosiect a Rhaglen. Does yna ddim pwynt sengl perffaith o ran 'cydbwysedd' ac mae'n debygol y bydd pobl yn lleisio'u barn gan ganmol neu feirniadu unwaith caiff y cydbwysedd ei daro. Yn achos Y GIE, fe gafodd y sefyllfa ariannu ei egluro'n glir. Bu i ddwywaith cymaint o ymgeiswyr na ellid eu hariannu benderfynu cwblhau'r cam olaf beichus, heb broses eglur ynghylch trosglwyddo'r ymdrechion hyn i fod yn bosibiliadau cynhyrchiol amgen. Mae hwn yn bwynt dysgu ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol - bu i gronfeydd grantiau eraill Llywodraeth Cymru

[41] Soniodd aelod o dîm Y GIE mai ffordd amgen i ddatblygu a gweithredu rhaglen newydd fyddai meddu ar adnoddau o'r fath, weithiau bydd angen ail-flaenoriaethu gwaith, neu mewn rhai achosion caiff timau newydd eu ffurfio i gyflawni polisi neu fenter newydd. Mae hyn yn ddibynnol ar yr adnoddau cyffredinol sydd ar gael neu'r gallu i berswadio deiliaid cyllidebau i frig-dorri cyllidebau rhaglenni i benodi staff penodol i gyflawni'r polisi/menter.

wynebu trafferthion tebyg gyda mwy o lawer o geisiadau grant na'r cyfanswm oedd ar gael.

**Trafferthion y broses a theori newid**

8.22 Roedd cydnabyddiaeth ac ymrwymiad amlwg holl brif weithredwyr proses ar y cyd Y GIE - hyd yn oed y rheiny oedd yn amheus ynghylch effeithiolrwydd y model sylfaenol i gynhyrchu'r deilliannau bwriadedig - yn sicrhau ei fod yn sylfaen ar gyfer 'theori newid' cadarn yn ymwneud â'r GIE. Roedd aelodau Bwrdd y Prosiect yn teimlo eu bod nhw wedi gwneud cynnydd sylweddol arfaethedig yn cydweithio gyda'i gilydd fel rhan o wasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol o ran y deilliant ymarferol a sut aethan nhw ati i gyflawni hynny. Fodd bynnag, nid oedd yn destun disgyblaeth o ran ei fynegi fel model rhesymeg neu theori newid benodol.

8.23 Mae cydweithio yn ymwneud â CDT (neu'r 3M yn y Saesneg), sef Cymhellion (pam ddylid cydweithio), Dulliau (pa mor drylwyr dylid cydweithio) a Thechnegau (pa rai y dylid eu gweithredu[42]). Mae'r GIE yn ymdrin â phedwar o'r technegau cydweithio cyffredin - 'rhychwantu ffiniau' o ran unigolion ac unedau, targedau perfformiad ar draws adrannau, fframwaith polisi a rhwydweithiau wedi'u rhannu a staff ac adnoddau eraill ar y cyd. Bu i'r GIE gynrychioli enghraifft weithredol o gydweithio yn hytrach na strategol, yn ymwneud â gweithio o fewn y sefydliad (o fewn Llywodraeth Cymru) a rhyngsefydliadol (gyda chyrff eraill) ynghyd â gweithio llorweddol (ar draws adrannau) a fertigol (rhwng haenau'r Llywodraeth).

8.24 Roedd gan brif weithredwyr Y GIE reswm da dros bwysleisio natur gydweithredol eithriadol os nad unigryw eu gwaith. Fodd bynnag, mae cydweithio fel arfer yn groes i'r ffordd y caiff gweithgareddau'r llywodraeth eu trefnu fel arfer[43]. Gallai'r costau gweithredu a sefydlu cysylltiedig fod yn uchel, ac fe allan nhw amharu ar gadwyni cyflawni presennol. Gallai mentrau caiff eu hail-adrodd ac sydd wedi'u cynllunio'n wael gynhyrchu 'blinder cydweithio' a niweidio'r ysgogiad. Dyma pam gallai model rhesymeg wedi'i egluro'n glir ar gyfer cydweithio ar Y GIE fod wedi adnabod anfanteision arfaethedig yn ogystal â'r manteision bwriadedig, yn ymwneud â dyluniad a phroses Rhaglen Y GIE a hefyd gan y cafodd yr elfen cydweithio'i ymestyn yn helaeth fel rhan o'r Prosiectau eu hunain hefyd. Pe bai anghenion y Llywodraeth yn naratif cymhellol ynghylch pam fod cydweithio yn werth chweil, yna

---

[42] Gwelwch "Improving cross-cutting working: Evidence review and expert seminar": Wales Centre for Public Policy, 2019
[43]Caiff y pwyntiau hyn ei llunio o Adroddiad CPCC, *ibid*

gallai theori newid Y GIE yn ymwneud â chydweithio fod wedi cyfrannu at ei ddatganiad. Ni fyddai wedi datrys y broblem ond gallai fod wedi adnabod yr anfanteision ac yna helpu i’w lliniaru.

**Monitro a gwerthuso**

8.25 Bu I broses Y GIE sefydlu trefniadau monitro a gwerthuso ar lefel Rhaglen a lefel Prosiect. Ar lefel Prosiect unigol, mae yna werthusiadau manwl gydag adnoddau digonol wedi’u cynllunio a ddylai gynnig tystiolaeth werthfawr ynghylch yr hynny sy’n effeithiol. Fodd bynnag fe soniodd arweinwyr y Prosiectau y byddan nhw wedi gwerthfawrogi mwy o fewnbwn a chydweithio ar y dyluniad a’r prosesau monitro a gwerthuso.

8.26 Mae cynnal prosesau monitro a gwerthuso cyn cychwyn ar y Prosiectau yn amlwg yn ymarfer da, fodd bynnag roedd pryderon ynghylch defnyddio’r adnoddau penodol ar gyfer rhai o’r grwpiau targed. Mae tîm Y GIE a Phrosiectau yn cydnabod na fydd yr adnoddau monitro a gwerthuso penodol yn addas ar gyfer yr holl fuddiolwyr. Gallai’r canllaw fod wedi annog mwy o hyblygrwydd o ran yr adnoddau i’w defnyddio gyda gwahanol grwpiau o fuddiolwyr[44]. Gallwn fod wedi datrys y problemau hyn gyda’r Prosiectau (yn rhannol beth bynnag) ac mae’n elfen y gallai gweithgareddau gwerthuso ar Y GIE yn y dyfodol ymdrin â nhw.

8.27 Cafodd Prosiectau eu cynghori y gallan nhw gynnig comisiynau am elfennau gwerthuso eu Prosiectau gan ddefnyddio 5% hyd at 10% o gyllideb y Prosiect. Bu i sawl Prosiect wneud hyn erbyn inni lunio’r adroddiad hwn. Bydd yn ddefnyddiol dysgu a fydd angen cefnogaeth bellach ar y gweithlu ynghlwm er mwyn casglu’r data angenrheidiol yn llwyddiannus a chynnig cefnogaeth ddigonol ar lefel Rhaglen i sicrhau ansawdd a chysondeb unrhyw dystiolaeth y bydd Prosiectau’n ei gofnodi. Mae Grŵp Gwerthuso ynghlwm â threfniadau llywodraethu’r GIE ac mae proses lle gellir cyfeirio problemau a chwestiynau yn ymwneud â monitro i’r Grŵp drwy’r Swyddogion Achos dynodedig. Fodd bynnag, fel y soniwyd uchod, mae’n bosib nad oes yna adnoddau digonol i sicrhau bod modd cynnig cefnogaeth agos neu helaeth. At hyn, nid oes yna broses sicrhau ansawdd neu reoli ar waith hyd yn hyn i ofalu y caiff allbynnau’r gwerthusiad eu cydgrynhoi’n rhwydd er mwyn cynnig darlun cyffredinol cyson o lwyddiant y Rhaglen. Y Swyddogion Achos sy’n gyfrifol am hyn

[44] Gellid ystyried cynnig cyfres o adnoddau mewn rhaglenni yn y dyfodol, i ymdrin ag ystod mwy eang o’r buddiolwyr targed, a sut gellir defnyddio hyn wrth lunio adroddiadau a rhannu dysgu ar lefel Rhaglen.

ynghlwm â'r brif raglen ond gwyddom mae'n bosib nad ydy'r holl Swyddogion Achos yn meddu ar y sgiliau neu wybodaeth i gyflawni'r dasg hon. Gellir bwrw golwg ar hyn wrth i'r Prosiect ddatblygu ac wrth i Brosiectau gychwyn ar y broses gwerthuso.

8.28 Mae yna risg cysylltiedig o ran er bod proses Y GIE yn darparu ar gyfer gwerthusiad lefel Rhaglen (y mae'r adroddiad hwn yn rhan ohono yn amlwg), nid oes yna gysylltiad amlwg rhwng y gwerthusiadau lefel Rhaglen a gwerthusiadau lefel Prosiect. Ni fydd y gwerthusiad lefel Rhaglen yn ymdrin â'r gwerthusiadau Prosiect, ond mae yna fwriad i gasglu data (er gwaetha'r heriau amlwg) am y ddau fesur deilliannau fel rhan o werthusiad y Rhaglen. Gellir ystyried hyn ymhellach.

8.29 Mae'n bosib y byddai datblygu cynllun Monitro, Gwerthuso, Atebolrwydd a Dysgu hollgynhwysol yn gynnar yn help i greu dull mwy cyfunol a chysylltiedig o ran monitro a gwerthuso ar lefel Rhaglen a lefel Prosiect. Dyma ddull gaiff ei roi ar waith yn aml gyda rhaglenni grant, yn enwedig wrth ymdrin â datblygiad rhyngwladol[45].

[45] Gwelwch er enghraifft Bond: "Tools and methods for monitoring, evaluation, accountability and learning"

## 9. Gwerthusiad o'r Rhaglen gan Edrych tua'r Dyfodol

9.1 Mae proses Y GIE rydym wedi'i gwerthuso bellach wedi'i chwblhau mewn gwirionedd. Bu inni adnabod nifer o wersi ac fe ddylai'r rhain fod yn fuddiol wrth ddylunio Rhaglenni yn y dyfodol. Bu inni hefyd gynnig awgrymiadau ynghylch y proses Y GIE gan edrych tua'r dyfodol, gan gynnwys materion yn ymwneud â llywodraethu ac arweinyddiaeth. Fodd bynnag, y tu hwnt i hyn, gallwn hefyd weld goblygiadau'r gwerthusiad proses hwn ar gyfer y gwerthusiad cyffredinol Y GIE. Hyn i gyd yn enwedig ar gyfer y themâu a phynciau dan sylw a fydd yn ganolog i'r gwerthusiad yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Rydym yn ystyried y pynciau canlynol fel rhai posib ar gyfer ymchwiliad thematig fel rhan o werthusiad cyffredinol Rhaglen Y GIE at y dyfodol:

- Beth oedd a fydd goblygiadau'r pandemig coronafeirws ar y GIE? A fydd y pwyslais polisi ychwanegol ar iechyd a llesiant, a lleihau gordewdra yn arwain at newid cyfeiriad neu strategaeth ar lefel Prosiect? Sut bu i'r amhariadau rhag cyflawni gwasanaethau effeithio ar y Prosiectau? Ym mha ffordd bu i'r Prosiectau ail-feddwl eu dull o weithredu?
- Sut bu i (a sut fydd) cymryd rhan yn rhaglen Y GIE effeithio ar ddulliau mudiadau sy'n cymryd rhan, ar lefel partneriaethau'r Rhaglenni a Phrosiectau? Ydy hyn wedi newid eu safbwynt nhw o'r berthynas rhwng iechyd a chwaraeon? Ydy o wedi newid eu polisïau neu ddiwylliant? Ydy o wedi hwyluso cydweithio yn y dyfodol ar draws y ffin chwaraeon/iechyd? Sut bu i'r GIE ar lefel Rhaglen annog/ysgogi/arwain newid yn y modd hwn ar lefel Prosiect?
- Pa mor bwysig ydy ymwneud gyda'r gymuned, a pha mor arwyddocaol ydy'r gweithredwyr sy'n helpu cysylltu Prosiectau gydag unigolion arfaethedig, yn galluogi Prosiectau i ymwneud yn llwyddiannus gyda'u grwpiau targed, a pha rôl mae'n chwarae yn hyn o beth? Pa rôl fydd gan Y GIE ar lefel Rhaglen i alluogi Prosiectau i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn? Sut gallai asiantaeth effeithiol gyfrannu tuag at ddatblygu asedau cymunedol yn y tymor canolig a'r tymor hirach?
- Beth ydy amryw ystyron 'cynaladwyedd' a natur raddiadwy ar gyfer Prosiectau wedi'u hariannu gan Y GIE, a phwy sy'n gyfrifol dros yr ystyron hynny ac ydyn nhw'n amrywio yn y lefelau Rhaglen a Phrosiect a/neu rhyngddyn nhw? Beth

allai/ddylai Rhaglen Y GIE ei wneud i wella'r gobeithion ar gyfer cynaladwyedd ar lefel Prosiect?

- Sut allai Rhaglen Y GIE helpu i ofalu bod y lefelau gwerthuso'r Rhaglen a Phrosiect yn ategu ei gilydd ac yn atgyfnerthu ei gilydd? Beth ydy'r themâu a phroblemau cyffredin sydd angen eu gwerthuso ledled y Prosiectau er mwyn manteisio i'r eithaf ar ddysgu a chymharu a'r ffordd orau o roi hyn ar waith yng ngwerthusiad cyffredinol Rhaglen Y GIE?

9.2 Gwelwn yr holl gwestiynau uchod fel cwestiynau credadwy ar gyfer ymchwiliad thematig yn ystod ail flwyddyn a thrydedd flwyddyn y gwerthusiad lefel Rhaglen Y GIE, yn amodol ar ddulliau ymgysylltu a chydategol priodol ar lefel Prosiect.

## 10. Goblygiadau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Datblygu Polisïau a Dylunio Rhaglenni

10.1 Bu i darddiad y GIE ymdrin ag ymrwymiadau polisi a oedd yn ddigon sylweddol i'w crybwyll ym maniffesto'r Blaid fwyafrifol ar gyfer etholiad Cynulliad Cymru 2016. Yn y pendraw fe gafodd y rhain eu hychwanegu at Raglen Y GIE drwy broses ar y cyd rhwng dwy Adran Llywodraeth Cymru i gychwyn ac yna yn ymwneud â Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Un prif gwestiwn sydd erbyn hyn, sef i ba raddau y gellir bwydo cynnyrch Raglen Y GIE - o ran buddiolwyr gwirioneddol a chyffredinol a dysgu gan broses a dull y Rhaglen - yn ôl i'r broses datblygu polisïau ehangach o fewn Llywodraeth Cymru i'w ysgogi er mwyn dysgu ac elwa yn y dyfodol. Mae hyn y tu hwnt i gwmpas y darn gwaith presennol hwn, ond yn dilyn trafodaethau gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru sydd ynghlwm â'r broses datblygu polisïau, mae'n amlwg eu bod nhw'n awyddus i gydweithio. Mae gofyn i'r Raglen Y GIE greu adnodd adborth a'i roi ar waith, gan ddefnyddio deilliannau'r gwerthusiad i ysgogi a chynnal y dysgu.

10.2 Gwelwn hefyd y gallai adborth o Raglen Y GIE a'r gwerthusiad lefel Rhaglen ategu at ddull ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer dylunio a chyflawni'r Rhaglen. Mae'n amlwg y bu i'r prif weithredwyr, a oedd yn gyfrifol am 'ddyfeisio', dylunio a datblygu'r GIE wneud hynny mewn ffordd ymwybodol a meddylgar, yn ogystal â mewn ffordd effeithiol ar y cyfan. Mae ganddyn nhw wersi cadarnhaol ar gyfer llywio dyluniad Rhaglenni yn y dyfodol, ynghyd â meysydd risg, dewisiadau a diffygion i'w rhannu.

## Llyfryddiaeth

Archwilydd Cyffredinol Cymru. (2019). *Gweithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Llywodraeth.* Swyddfa Archwilio Cymru, Caerdydd.

Connell, A., Quarmby, S., a Martin, S., J., (2019). '*Gwella Gwaith Trawsbynciol : Adolygiad o Dystiolaeth a Seminar gydag Arbenigwyr,* Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Caerdydd.

Saxton, J., a Lindström, E., (2012 a 2018). *Taking nothing for granted: a research report into what charities think a model grant-maker looks like*. John Ellerman Foundation/nfpSynergy, London.

UK Research and Consultancy Services Ltd (2019). '*Achievement, Change and Learning The Evaluation of Sport Wales' Calls 4 Action Programme Final Report',* RCS, Caerdydd.

**ATODIAD 1: TÎM GWERTHUSO RHAGLEN Y GIE**

Dr Clive Grace – Cyfarwyddwr Prosiect

Tim Allen – Uwch Swyddog Cyflawni Ymchwil

Mike Bennett – Uwch Swyddog Cyflawni Ymchwil

Nick Greenhalgh – Ymchwil Craidd a Chyflawni

Sandra Harris – Rheolwr Prosiect

Professor Steve Martin – Dulliau Ymchwil a Sicrhau Ansawdd

Becca Mattingley – Ymchwil Craidd a Chyflawni

Nicky Schlatter – Ymchwil Craidd a Chyflawni

Liam Whittington - Ymchwil Craidd a Chyflawni

Aled Eirug – Ymchwil Craidd a Chyflawni

## ATODIAD 2: DULLIAU A FFYNONELLAU TYSTIOLAETH[46]

Bu inni gychwyn ar y gwerthusiad Proses drwy ofalu ein bod yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o gamau amrywiol Y GIE, i ymdrin ag effeithiau dyluniad a chyflawni'r GIE, safbwyntiau prif weithredwyr, effeithiolrwydd y cydweithio ac ydy'r GIE wedi gweithredu'r ffyrdd o weithio sydd wedi'u crybwyll yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cafodd y gwerthusiad proses hwn ei lunio gyda chyfraniad pob un o'r tri mudiad partner, yr 17 Prosiect, eu Swyddogion Achos a chan gydweithio gyda mudiadau wnaeth gyflwyno ceisiadau aflwyddiannus. Bu inni hefyd lwyddo i fanteisio ar ganfyddiadau gwerthusiadau proses rhaglenni eraill fel Calls 4 Action a wnaeth gynnig cipolwg pellach ar ddyluniad a chyflawniad proses Y GIE.

Bu inni ymgymryd â'r canlynol:

- Adolygiad o ddogfennau'r Rhaglen a'r Prosiectau;
- Cyfweliadau gydag aelodau Bwrdd y Prosiect a'r Grŵp Gwerthuso a Chyflawni;
- Cyfweliadau gydag Arweinwyr Prosiect a Swyddogion Achos;
- Arolwg ar-lein o'r ymgeiswyr; a
- Chyfweliadau proses ychwanegol gydag aelodau staff allweddol oedd ynghlwm â gweinyddu'r grant.

### Dogfennau'r Rhaglen

Ymysg y dogfennau hyn roedd cofnodion/crynodebau'r Prosiectau/dogfennau canllaw/templedi ceisiadau a'r 17 cais Prosiect llawn. Bu i'r arolwg helpu i bennu dyddiadau allweddol a cherrig milltir ac roedd yn help i'r tîm ymchwilio ddatblygu dealltwriaeth sylfaenol o'r theori newid sylfaenol a'r meini prawf er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch cyflwyno cyllid. Roedd yn fodd inni ymgyfarwyddo gyda'r strwythur llywodraethu manwl a rolau'r prif weithredwyr ynghlwm â gweinyddu a dylunio'r broses.

Bu inni gynnal cyfarfodydd/galwadau gydag un o'r prif weithredwyr ar gychwyn y broses gwerthuso er mwyn iddo egluro'r manylion am gamau a cherrig milltir y Rhaglen ynghyd â'r broses meddwl ynghlwm â nhw o'r cam cyntaf un yn y broses hyd at gyflwyno'r grantiau. Roedd hyn yn fodd inni drefnu a chofnodi llinell amser manwl o ddyddiadau a deall y

[46] Gallwch holi am gopïau o'r deunyddiau ymchwil a mwy o fanylion ar y broses ymchwil gan UKRCS drwy gysylltu gyda Sandra.harris@ukrcs.uk

dogfennau ategol oedd ar gael i'n helpu i ddatblygu canllawiau pynciau ar gyfer cyfweliadau.

**Cyfweliadau**

Yn ystod haf 2019, bu i'r Tîm Gwerthuso gynnal cyfres o 28 cyfweliad lled-strwythuredig (cymysgedd o gyfweliadau wyneb yn wyneb a dros y ffôn) gyda 21 o weithredwyr. Bu'r cyfweliadau hyn yn ymdrin â'r Theori Newid a'r Gwerthusiad Proses. Bu inni gynnal cyfweliadau gydag aelodau'r grwpiau / cyrff canlynol:

- Bwrdd y Prosiect (9)
- Grŵp Gwerthuso (4)
- Grŵp Cyflawni (3)
- Tîm gweinyddu grantiau (2)
- Swyddogion polisi Llywodraeth Cymru (3)

Mae aelodau'r Grŵp Cyflawni hefyd yn aelodau o Fwrdd y Prosiect a/neu'r Grŵp Gwerthuso. Gan ddefnyddio canllaw pynciau ar wahân ond a oedd hefyd yn gysylltiedig, bu inni fynd ati i gynnal cyfweliadau gydag Arweinwyr Prosiect yr 17 Prosiect Llwyddiannus a'r Swyddogion Achos. Bu inni gyfweld ag Arweinwyr Prosiectau yn aml ar y cyd ag aelodau eraill o'u mudiad neu fudiad partner a oedd ynghlwm â datblygu'r cais neu a fyddai'n arwain ar agweddau o gyflawni'r Prosiect. Bu i gyfanswm o 25 o gyfweledigion o Brosiectau a 11 o Swyddogion Achos gyfrannu at y cyfweliadau.

**Arolwg**

Bu inni lunio arolwg dwyieithog ar-lein gyda Survey Monkey ar gyfer holl ymgeiswyr y Rhaglen, ni waeth pa gam roedden nhw wedi'i gyrraedd yn y broses ymgeisio cyffredinol. Bu i'r arolwg ymdrin â'r canlynol:

- Lefel boddhad gydag amryw gamau'r broses ymgeisio
- Datblygu partneriaethau/cydweithio
- Rhagdybiaethau ynghylch y gefnogaeth fel rhan o broses Y GIE
- Cydymffurfio gyda'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r egwyddor datblygiad cynaliadwy

Cafodd yr ymatebwyr eu cyfeirio at gwestiynau perthnasol yn ôl y cam y bu iddyn nhw ei gyrraedd, h.y. (i) Cam Datganiad o Ddiddordeb (DoDd), (ii) Cam 2 Cais Llawn, a (iii) Ymgeisydd Llwyddiannus.

Drwy gydol yr arolwg bu inni gyflwyno manylion cyswllt i'r ymgeiswyr llwyddiannus allu siarad yn uniongyrchol gydag aelod o'r tîm ymchwil a chynnig adborth pellach am eu profiad nhw o'r broses ymgeisio os oedden nhw'n dymuno gwneud hynny. Fe benderfynodd tri o'r ymgeiswyr wneud hyn.

Roedd modd cwblhau'r arolwg o Hydref yr 11eg hyd at Hydref yr 31ain 2019 a bu inni dderbyn 27 o ymatebion: 17 gan ymgeiswyr trydydd sector a 10 gan ymgeiswyr sector cyhoeddus. Bu i dri o'r ymatebwyr gyflwyno DoDd, bu i 14 gyrraedd y cam cais llawn ac roedd y naw ymatebwr oedd yn weddill wedi cyflwyno cais llwyddiannus i dderbyn cyllid. Penderfynodd un o'r ymatebwyr i beidio â datgan pa gam oedden nhw wedi'i gyrraedd.

**Mawrth 2021**